



**Adroddiad i Gyngor
Bwrdeistref Sirol Merthyr
Tudful**

gan:

Paul Selby BEng (Hons) MSc MRTPI
Arolygydd a benodir gan Weinidogion Cymru

Dyddiad: 17 Rhagfyr 2019

**Report to Merthyr Tydfil
County Borough Council**

by:

Paul Selby BEng (Hons) MSc MRTPI
Inspector appointed by the Welsh
Ministers

Date: 17 December 2019

DEDDF CYNLLUNIO A PHRYNU GORFODOL 2004 (FEL Y'I DIWYGIWYD)

ADRAN 64

**ADRODDIAD AR YR ARCHWILIAD I
GYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD
MERTHYR TUDFUL 2016 – 2031**

Cyflwynwyd y cynllun ar gyfer ei archwilio ar 21 Ionawr 2019

Dechreuodd yr archwiliad yn ffurfiol ar 18 Mawrth 2019 ar ôl derbyn sylwadau ar Newidiadau â Ffocws

Cynhaliwyd gwrandawiadau rhwng 25 Mehefin a 4 Gorffennaf ac ar 21 Awst 2019

Cyf ffeil/File ref: 516242

Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn

ARhAA	Ardal Rheoli Ansawdd Aer
DCWW	Dŵr Cymru Welsh Water
ATC	Adolygiad Tir Cyflogaeth
CATff	Cynllun Adfer Tir Ffos-y-frân
ARhC	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
AASH	Ardal Adfywio Strategol Hoover
CDLI	Cynllun Datblygu Lleol
AFDL	Asesiad o'r Farchnad Dai Leol
GNL	Gwarchodfa Natur Leol
ACLI	Awdurdod Cynllunio Lleol
ACHLI	Ardal Chwilio Lleol
CTLI	Cynllun Trafnidiaeth Lleol
NMG	Newid yn sgil Materion a Godwyd
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
SMA	Strategaeth Mannau Agored
PCC	Polisi Cynllunio Cymru
AMHM	Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol
DTRh	Datganiad Technegol Rhanbarthol
AoG	Arfarniad o Gynaliadwyedd
AAS	Asesiad Amgylcheddol Strategol
SBCN	Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur
ATA	Ardal Tirwedd Arbennig
SoDdGA	Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
SDC	Systemau Draenio Cynaliadwy
TAN	Nodyn Cyngor Technegol
Deddf LICD	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
LIC	Llywodraeth Cymru

Crynodeb Annhechnegol

Daw'r adroddiad hwn i'r casgliad, yn amodol ar y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd a argymhellir, a nodir yn yr Atodiad, bod Cynllun Datblygu Lleol Newydd Merthyr Tudful 2016 – 2031 ('y Cynllun') yn darparu sylfaen briodol ar gyfer cynllunio yn y Fwrdeistref Sirol hyd at 2031. Mae'r Cyngor wedi darparu digon o dystiolaeth i gefnogi'r Cynllun ac wedi dangos bod ganddo obaith realistig o'i gyflawni.

Mae angen nifer o newidiadau er mwyn gwneud y Cynllun yn gadarn ac i fodloni'r gofynion statudol. Nid yw'r rhain yn newid pwyslais y strategaeth gyffredinol nac yn tanseilio'r Arfarniad o Gynaliadwyedd neu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

Crynohoir y newidiadau allweddol fel a ganlyn:

- Newidiadau i ddyraniadau safleoedd tai penodol, gan gynnwys dileu ac ychwanegu, i adlewyrchu diweddariad o ran tystiolaeth y gellir eu cyflawni, a chanfyddiadau'r archwiliad; gyda newidiadau canlyniadol i'r trywydd/ffigyrau cyflenwi ar gyfer tai a'r targed tai fforddiadwy ar draws y Cynllun;
- Egluro y bydd cynlluniau a arweinir gan dai fforddiadwy yn cael eu cefnogi lle gellir cyflawni hyn;
- Cynnwys rhestr o seilwaith a nodwyd ac a ddiogelir fel atodiad i'r Cynllun;
- Egluro disgwyliadau polisi ar gyfer Ardal Adfywio Strategol Hoover, gan gynnwys Cynllun Cysyniad dangosol;
- Sicrhau bod y prawf dilyniannol yn cael ei ddefnyddio yn unol â pholisi cenedlaethol lle bo hynny'n berthnasol, gan gynnwys mewn safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd, a'r tu allan i ganolfannau manwerthu a masnachol dynodedig;
- Egluro'r dull o asesu cynigion sy'n gysylltiedig â thwristiaeth y tu allan i ffiniau aneddiadau;
- Diwygio'r fframwaith polisi mwynau i sicrhau bod cyfiawnhad llawn dros echdynnu glo neu echdynnu glo o flaen llaw, yn unol â'r polisi cenedlaethol;
- Cynnwys gwybodaeth ychwanegol am safleoedd o werth ecolegol o fewn y Cynllun a diwygio'r fframwaith polisi i ddarparu amddiffyniad priodol i safleoedd o'r fath;
- Egluro sut y bydd polisiâu gwahanol yn rhyngweithio â'r drefn gydsynio ar wahân ar gyfer systemau draenio cynaliadwy;
- Sicrhau bod canlyniadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ac asesiadau cydraddoldeb yn rhan annatod o'r Cynllun, gan gynnwys mewn perthynas â thai hygyrch/addasadwy ac addysg Gymraeg uwchradd;
- Diwygio'r Map Cynigion i gynnwys dynodiadau polisi perthnasol ac i eithrio eraill; ac
- Addasu polisiâu eraill, y cyfiawnhad rhesymegol a'r fframwaith monitro i alinio â pholisi a chanllawiau a/neu dystiolaeth genedlaethol.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno'r holl newidiadau a argymhellir mewn ymateb i faterion yn codi o'r archwiliad. Gyda'r newidiadau argymelledig a nodir yn yr adroddiad hwn, mae'r Cynllun yn bodloni gofynion adran 64(5) Deddf 2004 ac yn bodloni'r profion cadernid a gynhwysir yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 2, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2015.

Cynnwys

1	Cyflwyniad	4
2	Gofynion gweithdrefnol	6
3	Strategaeth y Cynllun	7
4	Seilwaith a'r gallu i gyflawni	11
5	Tai	15
6	Safleoedd a dyraniadau tai strategol	21
7	Cyflogaeth, manwerthu, twristiaeth a hamdden	27
8	Ynni, mwynau a gwastraff	35
9	Polisiau amgylcheddol	39
10	Polisiau Rheoli Datblygu eraill	43
11	Monitro	45
12	Casgliadau cyffredinol	46
	Atodiad: Rhestr o Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd	A1

1 Cyflwyniad

- 1.1. O dan delerau Adran 64(5) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ('y Ddeddf'), diben archwilio Cynllun Datblygu Lleol yn annibynnol yw penderfynu: a) a yw'n bodloni gofynion adrannau 62 a 63 y Ddeddf a rheoliadau o dan adran 77; a b) a yw'n gadarn.
- 1.2. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr asesiad o Gynllun Datblygu Lleol Newydd Merthyr Tudful 2016 – 2031 ('y Cynllun') o ran y materion uchod, ynghyd ag argymhellion a'r rhesymau drostynt, fel sy'n ofynnol gan adran 64(7) y Ddeddf.
- 1.3. Paratowyd y Cynllun a gyflwynwyd yn unol â'r Ddeddf a Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd). Yn amodol ar y newidiadau a nodir yn yr Atodiad, rwy'n fodlon bod y Cynllun yn bodloni'r profion cadernid¹.
- 1.4. Argymhellir newidiadau yn yr adroddiad hwn dim ond pan mae angen diwygio'r Cynllun yng ngoleuni gofynion cyfreithiol neu i'w wneud yn gadarn. Rwy'n fodlon nad yw'r newidiadau a argymhellir yn newid hanfod cyffredinol y Cynllun a gyflwynwyd. Nid ydynt ychwaith yn tanseilio'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r prosesau cyfranogol a gynhaliwyd.
- 1.5. Ystyriwyd yr holl sylwadau a wnaed yn briodol, gan gynnwys y rhai a wnaed ar lafar mewn gwrandawiadau. Nid yw'r adroddiad hwn yn cyfeirio at faterion penodol a godwyd mewn sylwadau unigol, ac eithrio lle codwyd materion o sylwedd ynghylch cadernid y Cynllun. Yn yr un modd, caiff newidiadau i'r Cynllun a geisir gan gynrychiolwyr eu hargymell dim ond pan wyf wedi dod i'r casgliad bod y rhain yn angenrheidiol er cadernid.
- 1.6. Cynigiwyd dyraniadau amgen o ran safleoedd gan rai cynrychiolwyr. Mae'n debygol y gall y Cyngor fodloni anghenion y gymuned mewn nifer o ffyrdd, a gall pob un ohonynt fod yn gadarn. Mae rhai pobl o'r farn nad yw'r dyraniadau yn y Cynllun yn cyflwyno'r datrysiaid gorau, ond gallaf argymell newidiadau dim ond lle mae'r rhain yn angenrheidiol er cadernid. Felly, nid wyf wedi cyfeirio at safleoedd amgen penodol yn yr adroddiad hwn.

Newidiadau i'r Cynllun ar ôl adneuo

- 1.7. Cyn dechrau'r archwiliad, gwnaed nifer o 'Newidiadau â Ffocws' gan y Cyngor i'r Cynllun adnau. Gan y cynhaliwyd ymgynghoriad ac Arfarniad o Gynaliadwyedd ar y newidiadau hyn, y Cynllun rwyf wedi'i archwilio yw'r Cynllun adnau fel y'i haddaswyd gan y Newidiadau â Ffocws².
- 1.8. Yn dilyn y gwrandawiadau, paratôdd y Cyngor restr o Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd³ a diweddarwyd yr Adroddiad ar yr Arfarniad o

¹ Fel y'u nodir yn y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 2, mis Awst 2015

² Datganiad Ysgrifenedig y Cynllun Adnau fel y'i diwygiwyd gan y Newidiadau â Ffocws, mis Rhagfyr 2018 [SD01]

³ Rhestr o Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd (mis Medi 2019) [ED055]

Gynaliadwyedd yn unol â hynny⁴. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd ac ymgynghorwyd yn eu cylch am gyfnod o 6 wythnos. Rwyf wedi ystyried yr holl sylwadau a wnaed yn briodol yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn.

- 1.9. Mae Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd sy'n ofynnol er mwyn gwneud y Cynllun yn gadarn wedi'u nodi mewn **llythrennau trwm** yn yr adroddiad hwn ac fe'u manylir yn yr Atodiad. Mae nifer gyfyngedig o Newidiadau ychwanegol yn sgil Materion a Godwyd nad oes eu hangen er mwyn gwneud y Cynllun yn gadarn. Nid yw'r rhain yn destun argymhelliad rhwymol ac nid ydynt wedi'u nodi ym mhrif gorff fy adroddiad. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae'r Cyngor wedi'i awdurdodi i wneud unrhyw fân newidiadau golygyddol neu gywiriadau ffeithiol angenrheidiol i'r Cynllun sy'n deillio o gynnwys y newidiadau a argymhellir yn yr adroddiad hwn⁵.

Polisi a chanllawiau cenedlaethol sy'n datblygu

- 1.10. Ar 9 Hydref 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LIC) ddogfen ymgynghori o'r enw 'Cyflenwi tai trwy'r system gynllunio', yn cynnig diwygiadau i Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) a chynghor a chanllawiau cysylltiedig, gan gynnwys dirymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1 'Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai'. Ar yr un diwrnod, lansiodd LIC ymgynghoriad yn cynnig diweddarau TAN 15, sy'n ymwneud â datblygu, llifogydd ac erydiad arfordirol. Er fy mod wedi ystyried y dogfennau drafft hyn, cynigion ymgynghori ydynt a gallent newid cyn eu cyhoeddi. Felly, rwyf wedi bwrw ymlaen ag archwilio'r Cynllun yn erbyn polisi cenedlaethol sy'n bodoli.
- 1.11. Cafodd newidiadau eraill i bolisi cenedlaethol a wnaed ar ôl dechrau'r archwiliad eu trafod yn y gwrandawiadau a chyfeirir atynt o dan adrannau perthnasol yr adroddiad hwn⁶. Nid yw llythyr 'Annwyl Brif Swyddogion Cynllunio' a gyhoeddwyd gan LIC ar 23 Hydref 2019, yn ymwneud â Dyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, yn newid canfyddiadau fy archwiliad. Yn amodol ar y newidiadau a argymhellir, rwy'n fodlon bod y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn unol â pholisi cenedlaethol.
- 1.12. Cyhoeddwyd fersiwn ddrafft o Argraffiad 3 y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu⁷ (y 'Llawlyfr') ar gyfer ymgynghori ar 7 Mehefin 2019, cyn y gwrandawiadau. Er y cynhaliwyd yr archwiliad yn bennaf yng nghyd-destun Argraffiad 2 y Llawlyfr, rwyf wedi ystyried y cynnwys yn y fersiwn ddrafft o Argraffiad 3 lle bo hynny'n briodol. Cyfeirir yn yr adroddiad hwn at yr amgylchiadau lle mae hyn yn berthnasol. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod prosesau paratoi ac archwilio'r Cynllun wedi dilyn yn fras y dull a argymhellir yn Argraffiad 2 y Llawlyfr ac yn y fersiwn ddrafft ar gyfer ymgynghori o Argraffiad 3.

⁴ Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Adnau – Atodiad Pellach (mis Medi 2019) [ED057]

⁵ Gan gynnwys, er enghraifft, mân wallau argraffyddol a nodwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd arfaethedig, diwygiadau canlyniadol neu newidiadau cyflwyniadol i'r Cynllun

⁶ E.e. llythyr y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol dyddiedig 8 Gorffennaf 2019 mewn perthynas â thai fforddiadwy

⁷ Y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu – Argraffiad 3; Drafft Ymgynghori, mis Mehefin 2019

2 Gofynion gweithdrefnol

- 2.1. Paratowyd y Cynllun yn unol â'r Cytundeb Cyflenwi fel y'i cymeradwywyd gan LIC⁸. Mae'r dystiolaeth⁹ yn dangos bod y Cyngor wedi ymgysylltu ag ystod o sefydliadau a thrigolion ar gamau allweddol wrth lunio'r Cynllun a defnyddiodd gyhoeddusrwydd priodol i dynnu sylw rhanddeiliaid at gyfleoedd i wneud sylwadau. Cadwyd at amserlenni ymgynghori statudol¹⁰ ac mae trigolion a chyrff ymgynghori wedi cael digon o gyfle i gyflwyno eu safbwyntiau. Roedd gwyriadau o'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn rhai mân, a lle'r oeddent wedi digwydd, cynhaliodd y Cyngor weithgareddau ymgysylltu neu ymgynghori eraill yn eu lle¹¹. Mae'r Cynllun yn cydymffurfio â gofynion Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd) yn hyn o beth.
- 2.2. Cyn yr archwiliad, bu'r Cynllun adnau yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd a oedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol¹². Gwerthuswyd yr effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd ar gyfer dewisiadau amgen rhesymol a rhoddwyd rhesymau dros y dewis o strategaeth, dyraniadau safleoedd a pholisïau'r Cynllun. Mae atodiad i'r Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gwerthuso effeithiau'r Newidiadau â Ffocws a wnaed i'r Cynllun adnau¹³. Mae atodiad pellach i'r Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd¹⁴ yn ystyried newidiadau pellach i'r Cynllun sy'n deillio o'r archwiliad ac mae'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud ag effeithiau'r Cynllun ar ddefnydd y Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a gyflawnwyd gan y Cyngor yn ddigonol ac yn bodloni'r gofynion cyfreithiol.
- 2.3. Mae'r Cynllun wedi bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017. Mae'r broses hon wedi bod yn destun craffu gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Daw'r Asesiad Priodol¹⁵ i'r casgliad bod yr holl effeithiau sylweddol wedi'u gwrthbrofi. Nid yw asesiad pellach¹⁶ o effaith y Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd arfaethedig yn newid y casgliad hwn. Rwy'n fodlon nad oes angen unrhyw asesiadau manwl.
- 2.4. Mae Adran 5 yr atodiad i'r Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd¹⁷ yn darparu asesiad y Cyngor o gydymffurfiaid y Cynllun â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICD) ac mae'n esbonio sut mae'r

⁸ Cytundeb Cyflenwi fel y cytunwyd â Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2016 [SD19]

⁹ Adroddiad Ymgynghori'r Cynllun Adnau, mis Rhagfyr 2018 [SD14]; Adroddiad Ymgynghori'r Newidiadau â Ffocws, mis Mawrth 2019 [SD59]

¹⁰ Rheoliadau 16 a 18 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (CDLI) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd)

¹¹ Adroddiad Ymgynghori'r Cynllun Adnau, paragraff 8.8 [SD14]

¹² Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Adnau, mis Mehefin 2018 [SD06]

¹³ Atodiad i'r Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, mis Rhagfyr 2018 [SD08]

¹⁴ Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Adnau – Atodiad Pellach (mis Medi 2019) [ED057]

¹⁵ Adroddiad Sgrinio Diwygiedig yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan gynnwys Asesiad Priodol, mis Rhagfyr 2018 [SD11]

¹⁶ Adroddiad Sgrinio Diwygiedig yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gan gynnwys Asesiad Priodol – Atodiad, mis Medi 2019 [ED058]

¹⁷ Atodiad i'r Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, mis Rhagfyr 2018 [SD08]

Cynllun yn alinio â Chynllun Lles Cwm Taf 2018-2023¹⁸. Mae cyfres o ddogfennau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, yn ogystal ag Adroddiadau'r Ymgynghoriad, yn darparu tystiolaeth bod y Cynllun yn alinio â'r nodau lles ac yn eu cefnogi, a'i fod wedi'i lunio mewn modd sy'n gyson â'r ffyrdd o weithio a bennir yn Neddf LICD.

- 2.5. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno tystiolaeth¹⁹ yn dangos sut yr ystyriwyd materion cydraddoldeb yn ystod y broses o lunio'r cynllun. Wrth gynnal yr archwiliad, rwyf wedi rhoi sylw dyledus i'r nodau a fynegir yn adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys mewn perthynas â'r gallu i addasu a'r mathau o dai sydd i'w sicrhau gan y Cynllun, ac i hygyrchedd yr amgylchedd adeiledig yn gyffredinol.
- 2.6. Cyhoeddwyd PCC Argraffiad 10 ym mis Rhagfyr 2018. Mae angen nifer o newidiadau i'r Cynllun er mwyn alinio â phwyslais cyffredinol a pholisïau penodol PCC a'r TANs cysylltiedig. Yn amodol ar y newidiadau a argymhellir yn yr adroddiad hwn, mae'r Cynllun yn gyson â pholisi cenedlaethol.

Casgliad

- 2.7. Dof i'r casgliad bod y gofynion gweithdrefnol a chyfreithiol perthnasol wedi'u bodloni.

3 Strategaeth y Cynllun

Gweledigaeth ac amcanion

- 3.1. Mae gweledigaeth y Cynllun yn adlewyrchu gweledigaeth Cynllun Lles Cwm Taf 2018-2023 ac mae'n cyfeirio at leoliad y Fwrdeistref Sirol o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae alinio gweledigaeth y Cynllun â blaenoriaethau lleol a rhanbarthol allweddol yn briodol gan fod gweithredu'r cynlluniau a'r strategaethau hynny, yn ei dro, yn sylfaenol i weithredu'r Cynllun yn llwyddiannus.
- 3.2. Mae'r 18 amcan yn ymwneud yn glir â gweledigaeth y Cynllun. Er eu bod wedi'u paratoi cyn cyhoeddi PCC Argraffiad 10, maent yn alinio â'r Egwyddorion Cynllunio Allweddol cenedlaethol ac mae'n amlwg y byddent yn cynorthwyo gyda chyfrannu at y Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleodd Cynaliadwy²⁰. Mae'r amcanion yn ymateb yn briodol i'r materion a'r cyfleoedd allweddol yn ymwneud â defnydd tir sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys 'meysydd o bryder' a amlinellwyd yn Adroddiad Arolwg 2016 yn ymwneud â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) presennol²¹.
- 3.3. Mae'r weledigaeth a'r amcanion yn benodol i'r ardal, yn gyson â pholisi cenedlaethol ac yn gosod fframwaith priodol ar gyfer strategaeth, polisïau a dyraniadau'r Cynllun.

¹⁸ ED006

¹⁹ Papur Briffio ar yr Effeithiau ar Gydraddoldeb, mis Mai 2019 [ED007b]

²⁰ Datganiad Ysgrifenedig y Cyngor ar gyfer Gwrandawriad 1, Tabl 2.1

²¹ Cynllun Datblygu Lleol Merthyr Tudful 2006-2021 [SD57]

Strategaeth ofodol

- 3.4. Mae'r Cynllun yn rhannu'r Fwrdeistref Sirol yn ddwy ran: sef Ardal Twf Sylfaenol sy'n ymestyn dros ran ogleddol y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys prif anheddiad Merthyr Tudful ac Ardal Adfywio Strategol Hoover; ac Ardal Twf Arall, sy'n cynnwys nifer o gymunedau sydd ar wahân ond â chysylltiad agos, sydd wedi'u lleoli yn ne'r Fwrdeistref Sirol. Byddai'r Ardal Twf Sylfaenol yn cyfrif am dros 71% o'r cyflenwad tai ac mae'n cynnwys y rhan fwyaf o ddyraniadau cyflogaeth y Cynllun²².
- 3.5. O fewn y ddwy ardal hyn yn gyffredinol, mae ffiniau aneddiadau manwl wedi'u dynodi ar y Map Cynigion. Ar y cyfan, diffiniwyd y rhain yn unol â methodoleg gyson²³ a byddent yn hwyluso cyfleoedd 'talgrynnu' ar hap priodol ar gyrion rhai aneddiadau, yn gyson â chanllawiau LIC sy'n datblygu²⁴. Byddai addasiad pellach i ffin anheddiad Treharris er mwyn alinio â datblygiad preswyl a ganiateir sydd wedi'i weithredu'n rhannol, yn sicrhau y darperir ffin amddiffynadwy yn yr anheddiad hwnnw (**MapMAC7**). Fel arall, gellir cyfiawnhau ffiniau'r aneddiadau ac nid oes angen unrhyw ddiwygiadau eraill er cadernid.
- 3.6. Nod polisiau SW4 a SW5 y Cynllun yw sicrhau y gellir cyfiawnhau datblygu y tu allan i ffiniau aneddiadau dynodedig ar y sail bod lleoliad yng nghefn gwlad yn ofynnol, neu pe byddai ganddo ryw fudd penodol arall, er enghraifft trwy ddarparu tai fforddiadwy. Yn amodol ar newid i bolisi SW4 a'i gyfiawnhad rhesymegol dros ganiatáu datblygiadau twristiaeth, datblygiadau hamdden neu ddatblygiadau cyflenwol yng nghefn gwlad lle mae cyfiawnhad llawn dros hynny (**MAC6**), mae'r polisiau hyn yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol ac maent yn briodol.
- 3.7. Mae PCC yn nodi egwyddorion allweddol ar gyfer strategaethau gofodol a'r 'drefn chwilio safleoedd' i'w defnyddio wrth lunio cynlluniau. Cefnogir y Cynllun gan dystiolaeth gadarn sy'n nodi'r dull a ddefnyddir i goladu ac asesu safleoedd ymgeisiol y gellid o bosibl eu dyrannu ar gyfer tai, cyflogaeth neu ddefnyddiau eraill²⁵. Cafodd yr effeithiau sylweddol tebygol o ran datblygu safleoedd ymgeisiol eu dadansoddi gan ddefnyddio fframwaith cyson ar gyfer Arfarnu Cynaliadwyedd ac ailedrychwyd yn briodol ar asesiadau o safleoedd yn ystod y broses o lunio'r Cynllun. Mae lefel y wybodaeth a ddarperir yn y dystiolaeth hon mewn perthynas â safleoedd penodol yn gymesur ac mae'r rhesymau dros ddewis y dyraniadau safleoedd yn y pen draw wedi'u mynegi'n glir.
- 3.8. Mae PCC yn nodi bod y ffactorau allweddol i'w blaenoriaethu wrth lunio strategaethau gofodol yn cynnwys lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau trafnidiaeth heblaw ceir; blaenoriaethu defnyddio tir addas a chynaliadwy a ddatblygwyd o'r blaen neu safleoedd a danddefnyddiwyd; a gwarchod y tir

²² Datganiad Ysgrifenedig y Cyngor ar gyfer Gwrandawriad 2: Ymateb y Cyngor i Bwynt Gweithredu 4.3 [ED045]

²³ Paragraff 6.5.30 y Cynllun

²⁴ Paragraffau 5.20 a 5.21 y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu – Drafft Ymgynghori Argraffiad 3, mis Mehefin 2019

²⁵ Gan gynnwys y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol [SD18]; Adroddiad Cwmpasu Sylfaenol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (paragraffau 5.6 i 5.11 a Thabl 5.4) [SD10]; a'r Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Adnau, mis Mehefin 2018 (t.43 i t.50) [SD06]

amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrrpas. Er nad oes unrhyw dir amaethyddol gradd 1, 2 neu 3a yn y Fwrdeistref Sirol, mae'n glir bod yr angen i ddefnyddio tir llwyd cyn defnyddio safleoedd maes glas yn parhau. Yn amodol ar y newidiadau a argymhellir a nodwyd yn yr adroddiad hwn, byddai tua 47% o gartrefi ar safleoedd a ddyrannwyd yn cael eu lleoli ar dir a ddatblygwyd o'r blaen. Yn achos dyraniadau heb ganiatâd cynllunio, mae'r gyfran yn uwch na 50%. Byddai 11% arall o'r unedau a ddyrannwyd yn cael eu lleoli ar dir a ddefnyddiwyd yn flaenorol gan ddiwydiant²⁶.

- 3.9. Heb os, bydd safleoedd tir llwyd ychwanegol yn bodoli a all ddarparu, yn ddamcaniaethol, ar gyfer tai neu ddefnyddiau eraill. Serch hynny, mae'n amlwg bod topograffi lleol ac etifeddiaeth ddiwydiannol y Fwrdeistref Sirol yn ffactorau sy'n gweithredu fel cyfyngiadau ymarferol o ran sicrhau ailddatblygu rhywfaint o dir llwyd. O ganlyniad, nid yw'r Cynllun yn dibynnu ar safleoedd amgen posibl, fel Hen Waith Dur Ivor, oherwydd eu rhagolygon ansicr o ran datblygu²⁷. Er gwaethaf hyn, mae'r Cynllun yn ceisio'n briodol i sicrhau ailddatblygiad safleoedd a danddefnyddir neu safleoedd a fydd yn wag yn fuan, lle mae gobaith rhesymol y bydd hyn yn digwydd o fewn cyfnod y Cynllun. Ar ben hynny, byddai'r ddau ddewis gofodol rhesymol arall a aseswyd yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn arwain at gyfran uwch o ddatblygu maes glas, gyda'r opsiwn a ddewisir yn sgorio uchaf yn erbyn amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd o amddiffyn a gwarchod adnoddau pridd²⁸.
- 3.10. Mae'r rhan fwyaf o ddyraniadau tai a chyflogaeth y Cynllun yn ymwneud â safleoedd sydd o fewn ffiniau aneddiadau fel y'u dynodir yn y CDLI presennol. Dim ond 2 ddyraniad tai ac 1 dyraniad cyflogaeth sy'n cynrychioli ymwthiadau pellach i gefn gwlad agored o gymharu â'r CDLI a fabwysiadwyd ar hyn o bryd²⁹. Byddai canolbwyntio dyraniadau safleoedd o fewn neu ar gyrion aneddiadau presennol yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd trigolion a gweithwyr y dyfodol yn gallu dewis cerdded, beicio neu ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn rheolaidd. Byddai tua 20% o gyfanswm gofynion tai'r Cynllun yn cael ei leoli o fewn Ardal Adfywio Strategol Hoover, sydd â mynediad hawdd i'r rhwydwaith reilffyrdd a Llwybrau Taf a Trevithick. O ganlyniad i ffactorau o'r fath, y strategaeth a ddewiswyd a sgoriodd uchaf o'r 3 dewis amgen rhesymol a ystyriwyd gan y Cyngor mewn perthynas ag amcan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd o hyrwyddo trafndiaeth gynaliadwy³⁰.
- 3.11. Er gwaethaf hyn, mae'r Cyngor ei hun yn cydnabod nad yw dyraniad cyflogaeth EcW1.3 (Ffos-y-frân) mewn lleoliad da mewn perthynas â thrafnidiaeth gyhoeddus³¹. Er y byddai darparu defnyddiau diwydiannol a warysau ar y safle hwn yn briodol oherwydd eu dwysedd is o ran cyflogaeth, ni fyddai cynnwys swyddfeydd, sef defnydd sy'n ddwys o ran teithio, yn cyd-fynd â'r egwyddorion gofodol a amlinellir mewn polisi cenedlaethol. Felly, dylid eithrio defnyddiau dosbarth B1(a) o'r rhestr o ddefnyddiau a ganiateir yn y dyraniad safle hwn (**MAC33.1**).

²⁶ Datganiad Ysgrifenedig y Cyngor ar gyfer Gwrandawriad 2: Ymateb y Cyngor i Bwynt Gweithredu 4.3 [ED045]

²⁷ Datganiad Ysgrifenedig y Cyngor ar gyfer Gwrandawriad 4

²⁸ Adroddiad Cychwynnol ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, Atodiad 5 [SD09]

²⁹ Safleoedd SW3.8, SW3.29 ac EcW1.3

³⁰ Adroddiad Cychwynnol ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, Atodiad 5 [SD09]

³¹ Datganiad Ysgrifenedig y Cyngor ar gyfer Gwrandawriad 5

- 3.12. Mae Asesiad Strategol Canlyniadau Llifogydd a baratowyd ym mis Mehefin 2018 yn darparu asesiad eang o lefel y risg llifogydd mewn tri safle datblygu strategol, gan ystyried llifogydd afonol a llifogydd dŵr daear³². Mae'r dystiolaeth hon wedi llywio'r strategaeth ofodol trwy lywio datblygiad a gynllunnir i ffwrdd oddi wrth y safleoedd sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd. Yn ogystal â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd, mae'r Asesiad Strategol Canlyniadau Llifogydd yn dangos y byddai'r Cynllun yn cynorthwyo o ran sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol, gan gynnwys mewn perthynas â risg llifogydd³³. Er bod diweddariadau diweddar i'r Mapiau Cyngor Datblygu sy'n gysylltiedig â TAN 15 'Datblygiad mewn ardal sydd mewn perygl o lifogydd' wedi addasu'r amlinelliad ar gyfer parth llifogydd C2 o fewn Ardal Adfywio Strategol Hoover, mae'n amlwg na fyddai'r newidiadau hyn yn rhagfarnu darpariaeth dyraniadau'r Cynllun³⁴.
- 3.13. Er mwyn olrhain effeithiolrwydd y Cynllun o ran hyrwyddo ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen, dylid diwygio dangosydd monitro 4.1 i fod yn berthnasol i bob datblygiad, yn hytrach nag anheddau yn unig (**MAC53**). Yn amodol ar hyn a'r newidiadau eraill a argymhellir, a nodir uchod, rwy'n fodlon y byddai strategaeth ofodol y Cynllun yn cynorthwyo â chynnal cymunedau presennol, yn sicrhau twf economaidd cynaliadwy, yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau yn ystod cyfnod y Cynllun, yn cyfyngu effeithiau amgylcheddol ac yn hyrwyddo hygyrchedd. Wrth wneud hynny, byddai'n sicrhau Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol.

Cysondeb o ran cynlluniau, polisïau a strategaethau eraill

- 3.14. Mae Cynllun Gofodol Cymru³⁵ yn nodi Merthyr Tudful fel anheddiad allweddol. Byddai strategaeth y Cynllun yn cefnogi'r rôl hon trwy sicrhau tai, defnyddiau masnachol a seilwaith newydd mewn lleoliadau priodol, ond gan amddiffyn a gwella mynediad i'r amgylchedd naturiol a chefn gwlad ar yr un pryd.
- 3.15. Mae Cynllun Twf Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd³⁶ yn nodi Merthyr Tudful fel 'hwb strategol' ym Mlaenau'r Cymoedd a'i nod yw alinio twf â rhwydwaith Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn y dyfodol, gan gynnwys llinell reilffordd Cwm Taf sy'n rhedeg trwy ganol y Fwrdeistref Sirol. Byddai'r Cynllun yn cyd-fynd â'r dyhead hwn gan y byddai'n canolbwyntio datblygiadau newydd o fewn yr Ardal Twf Sylfaenol, yn Ardal Adfywio Strategol Hoover ac mewn aneddiadau a wasanaethir gan y rhwydwaith rheilffyrdd.
- 3.16. Ar 7 Awst 2019, cyhoeddwyd fersiwn ddrafft o Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040 gan LIC ar gyfer ymgynghori. Disgwylir i'r ddogfen hon, yn ei thro, lywio Cynlluniau Datblygu Strategol isranbarthol, gan gynnwys ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Gan nad yw'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol na'r Cynlluniau Datblygu Strategol wedi'u cyhoeddi na'u mabwysiadu'n ffurfiol hyd yn hyn, nid oes unrhyw ofyniad i'r Cynllun hwn gydymffurfio'n gyffredinol â'r rhain. Er bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft yn cynnwys polisïau ac amcanestyniadau a allai fod â goblygiadau i'r

³² Asesiad Strategol Canlyniadau Llifogydd, mis Mehefin 2018 [SD37]

³³ PCC Argraffiad 10, paragraffau 3.30 i 3.33

³⁴ Ymateb y Cyngor i'r Arolygydd ynghylch sylwadau ar Newidiadau yn sgil Materion a Godwyd, mis Hydref 2019 [ED061a a ED061b]

³⁵ Pobl, Llefydd, Dyfodol - Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008

³⁶ ED014

Fwrdeistref Sirol a'r CDLI yn y dyfodol, gall y rhain newid cyn iddynt gael eu cwblhau. Mae materion o'r fath yn debygol o gael eu nodi trwy'r broses fonitro flynyddol. Felly, nid oes angen unrhyw newidiadau i'r Cynllun er mwyn cymryd i ystyriaeth Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy'n datblygu.

- 3.17. Er gwaethaf hyn, mae dogfennau tystiolaethol allweddol sy'n sail i'r Cynllun yn ystyried anghenion a gofynion isranbarthol, er enghraifft mewn perthynas â thai, seilwaith trafnidiaeth, cyflogaeth a defnyddiau manwerthu. Mae dynodiadau ar sail ardaloedd megis Ardaloedd Tirwedd Arbennig a Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur wedi'u nodi gan ddefnyddio methodolegau tebyg i Awdurdodau Cynllunio Lleol cyfagos. Er bod y Fwrdeistref Sirol wedi penderfynu peidio â dynodi Lletemau Glas yn y Cynllun, mae'r dystiolaeth³⁷ yn dangos bod cyfiawnhad dros hyn a bod y Cynllun yn cynnwys mesurau diogelwch digonol i atal datblygu niweidiol rhag digwydd mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi'n Lletemau Glas ar hyn o bryd. Felly, rwyf o'r farn bod y Cynllun yn 'cyd-fynd' â chynlluniau, polisiau a strategaethau perthnasol eraill.

Statws y Map Cyfyngiadau

- 3.18. Yn wahanol i'r Map Cynigion, mae'r Map Cyfyngiadau yn nodi'n bennaf dynodiadau polisi gofodol nad ydynt yn deillio o bolisiau'r Cynllun. Bydd **MAC2** yn egluro statws y Map Cyfyngiadau fel dogfen ategol yn hytrach nag fel cydran o'r Cynllun.

Casgliad

- 3.19. Mae strategaeth y Cynllun yn ceisio gwneud y defnydd gorau o dir a ddatblygwyd o'r blaen ac mae'n llywio'r rhan fwyaf o ddatblygiadau o fewn ffiniau aneddiadau presennol, a thrwy hynny yn hyrwyddo mynediad i dai, swyddi a gwasanaethau gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Fel y gwelir yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, mae dosbarthiad a graddfa arfaethedig y defnyddiau a'r safleoedd yn briodol. Byddai strategaeth y Cynllun yn alinio hefyd â strategaethau, cynlluniau a rhaglenni allweddol eraill. Dof i'r casgliad bod sail gadarn i ddosbarthiad cyffredinol y datblygiadau a'i fod yn gyson â pholisi cenedlaethol.

4 Seilwaith a'r gallu i gyflawni

Seilwaith

- 4.1. Mae polisiau a dyraniadau'r Cynllun yn ceisio sicrhau seilwaith ffisegol a chymdeithasol sy'n angenrheidiol i gefnogi cyflawni strategaeth y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys y gofynion seilwaith ar safleoedd a ragwelir, ond hefyd y cynlluniau amrywiol a allai chwarae rôl mewn hwyluso datblygiad dros gyfnod y Cynllun a thu hwnt.
- 4.2. Fel y'i cyflwynwyd, nid oedd y Cynllun yn ddigon clir ynghylch pa eitemau o seilwaith oddi ar safleoedd, sy'n ofynnol neu wedi'u diogelu, a fyddai'n cyfrannu at gyflawni a gweithredu amcanion a pholisiau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o brosiectau Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gwelliannau i lwybrau teithio llesol, darparu gorsaf fysiau newydd, deuoli'r A465, ac estyn

³⁷ Papur Cefndir Lletemau Glas [SD33]

Ysgol Gyfun Rhydywaun, sydd ar hyn o bryd yn bodloni anghenion addysg Gymraeg uwchradd y Fwrdeistref Sirol. Byddai **MAC73** yn ychwanegu rhestr gynhwysfawr o'r holl seilwaith a nodir ac a ddiogelir fel atodiad i'r Cynllun, ynghyd â manylion ychwanegol am y seilwaith penodol i safle sydd i'w ddarparu mewn safleoedd a ddyrannwyd. Bydd hyn yn galluogi olrhain cynnydd prosiectau seilwaith fel rhan o'r broses fonitro flynyddol, gan sicrhau effeithiolrwydd y Cynllun.

- 4.3. Mae Polisi SW12, 'Gwella'r Rhwydwaith Trafnidiaeth', yn nodi cynlluniau trafndiaeth allweddol i'w cefnogi a'u diogelu gan y Cynllun. Yn briodol, caiff prosiectau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol³⁸ eu nodi dim ond lle mae gan y rhain obaith rhesymol o gael eu gweithredu o fewn cyfnod y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys llwybrau teithio llesol, gorsaf fysiau newydd a chyfleuster parcio a theithio ym Mhentrebach. Nid yw'r un o'r cynlluniau ffyrdd a bysiau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Trafnidiaeth Lleol ond sydd wedi'u hepgor o bolisi SW12 yn hanfodol i gyflawni'r Cynllun.
- 4.4. Nid yw ail-flaenoriaethu cynlluniau trafndiaeth lleol yn annisgwyl o ystyried datblygiad Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel prosiect â blaenoriaeth uchel yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn 2015. Er bod cynigion ar gyfer y Metro yn parhau i fod mewn cyflwr esblygol, mae ymrwymiad clir i'w gyflawni gan Drafnidiaeth Cymru a LIC³⁹. Gan adlewyrchu pwysigrwydd y prosiect seilwaith hwn, mae polisi SW12, yn briodol, yn diogelu llwybrau neu safleoedd ar gyfer darparu seilwaith Metro yn y dyfodol ar linell Cwm Taf, a nodir ar gyfer gwelliannau craidd mewn perthynas â'r Metro⁴⁰.
- 4.5. Yn ogystal, mae polisi SW12 yn diogelu llinell reilffordd mwynau Cwm Bargoed a phen a thir y rheilffordd ar gyfer estyn y rheilffordd i Ddowlais Top yn y dyfodol. Ni waeth beth yw ei botensial i ddarparu ar gyfer teithio gan deithwyr yn y dyfodol, mae llinell a phen rheilffordd Cwm Bargoed yn seilwaith hanfodol ar gyfer mwynau yng Nghynllun Adfer Tir Ffos-y-frân, ac felly, mae eu diogelu yn cydymffurfio â PCC⁴¹. Rhoddir cyfrif am yr estyniad yn y dyfodol yng Nghynllun Adfer Tir Ffos-y-frân⁴², ac felly, mae hyn hefyd yn gyfiawnhad.
- 4.6. Gan fod polisi SW12 yn ymwneud â phrosiectau trafndiaeth yn y dyfodol yn unig, mae cynnwys llwybrau teithio llesol presennol ynddo yn achosi dryswch. Yn unol â pholisi cenedlaethol⁴³, dylid diwygio'r polisi i gynnwys dim ond y llwybrau teithio llesol arfaethedig a nodir ar Fap Rhwydwaith Integredig y Fwrdeistref Sirol (**MAC21**).

Hyfywedd a'r gallu i gyflawni

- 4.7. Yn unol â pharagraff 4.2.19 PCC, paratowyd arfarniad hyfywedd lefel uchel ar draws y cynllun i lywio'r Cynllun adnau⁴⁴. Gan ddefnyddio ystod o 11 o safleoedd datblygu preswyl sydd wedi'u cynnwys o fewn y Brif Ardal Twf a'r

³⁸ Cynllun Trafnidiaeth Lleol De Ddwyrain Cymru 2015-2020 [SD40]

³⁹ Rhestr Seilwaith, mis Mai 2019 [ED007a]

⁴⁰ 'Cyflwyno Ein Metro' [ED018]

⁴¹ PCC Argraffiad 10 paragraff 5.14.7

⁴² Cynllun Adfer Tir Ffos-y-frân, Cam 1, 2015 [ED038 a ED037]

⁴³ PCC Argraffiad 10 paragraff 4.1.32

⁴⁴ Asesiad Hyfywedd, mis Mawrth 2018 [SD34]

Ardal Twf Arall, mae'r astudiaeth yn amcangyfrif gwerthoedd datblygu gros y safleoedd yn seiliedig ar werthoedd gwerthu tebyg a geir mewn mannau eraill. Mae'r asesiad yn amcangyfrif gwerthoedd gweddilliol trwy ffactoreiddio rhagdybiaethau a chostau datblygu priodol ar gyfer pob safle, gan gynnwys lwfansau ar gyfer Ardoll Seilwaith Cymunedol mabwysiedig y Cyngor, targedau/cyfraniadau ar gyfer tai fforddiadwy ar safleoedd, darpariaeth mannau agored ar safleoedd, gofynion rheoleiddiol megis systemau chwistrellu, ac elw cyfunol o 23% ar gostau. Rwyf o'r farn bod yr astudiaeth yn dangos yn gadarn ei bod yn debygol y gellir cyflawni dyraniadau'r cynllun o ran hyfywedd ariannol.

- 4.8. Mae PCC yn ei gwneud yn ofynnol i arfarniad hyfywedd penodol i safle gael ei gynnal ar gyfer safleoedd sy'n allweddol i gyflawni strategaeth y Cynllun⁴⁵. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi arfarnu hyfywedd cydrannau preswyl, masnachol a manwerthu arfaethedig Ardal Adfywio Strategol Hoover⁴⁶, sydd o bwysigrwydd strategol i'r Cynllun yn ei gyfanrwydd.
- 4.9. Bydd cam cyntaf y datblygu yn Ardal Adfywio Strategol Hoover yn dechrau ar ôl i'r tir gael ei gaffael gan LIC, a rhagwelir y bydd hyn yn digwydd ar ddiwedd 2019. Gan nad oes llawer o wybodaeth ddiffiniol ar gael ar hyn o bryd am baratoi safleoedd a chostau adeiladu, mae'n ddealladwy bod llawer o'r rhagdybiaethau'n cynrychioli amcangyfrifon gorau, ond serch hynny, maent yn alinio â'r rhai a ddefnyddir yn yr arfarniad hyfywedd ar draws y cynllun. Amcangyfrifir costau penodol i safle lle mae'r rhain yn hysbys, er enghraifft mewn perthynas ag adeiladu pont droed arfaethedig, adfer tir a dymchwel.
- 4.10. O ystyried rôl y sector cyhoeddus o ran darparu'r safle, mae'n debygol y gall cyllid grant chwarae rôl hefyd wrth ddod â'r safle ymlaen. Serch hynny, mae'r asesiad yn amcangyfrif gwerthoedd tir yn briodol ar sail rhagdybiaethau marchnad agored. Ar ôl ystyried yr amgylchiadau lleol, rwy'n fodlon bod y rhagdybiaethau a ddefnyddir yn rhesymol a bod yr arfarniad yn dangos yn ddigonol bod safleoedd a ddyrennir yn Ardal Adfywio Strategol Hoover yn debygol o fod yn ariannol hyfyw.
- 4.11. Ers mis Ionawr 2019 mae systemau draenio cynaliadwy wedi dod yn orfodol ar gyfer llawer o ddatblygiadau. Er na chafodd gofynion caniatâd ar gyfer systemau draenio cynaliadwy eu cynnwys yn benodol yn yr asesiad hyfywedd ar draws y cynllun, ystyriwyd yr angen am arafu draenio ac roedd safleoedd yn parhau i fod yn hyfyw lle'r oedd angen gwaith o'r fath. Er na fydd effeithiau'r drefn ganiatáu newydd yn cael eu deall yn llawn am rywfaint o amser, yn enwedig o ran costau rheoli a chynnal a chadw hirdymor, mae canllawiau statudol LIC ar systemau draenio cynaliadwy⁴⁷ yn dangos y gallant fod yn fuddiol o ran cost, o'u hystyried o'r dechrau. Nid oes llawer o dystiolaeth yn erbyn hyn.
- 4.12. Yn ystod yr archwiliad, aseswyd dyraniadau safleoedd y Cynllun gan y Cyngor i benderfynu a allai'r rhain ddarparu'n ymarferol ar gyfer y nifer disgwyledig o anheddau neu arwynebedd llawr masnachol yn ogystal â'r seilwaith systemau draenio cynaliadwy⁴⁸. Daw'r dystiolaeth ychwanegol hon i'r casgliad

⁴⁵ PCC Argraffiad 10 paragraff 4.2.19

⁴⁶ Datganiad Ysgrifenedig y Cyngor ar gyfer Gwrandawriad 2, Atodiad 1

⁴⁷ Canllawiau Statudol ar Ddraenio Cynaliadwy LIC, paragraff 2.24

⁴⁸ Papur Cefndir Systemau Draenio Cynaliadwy [ED009]

argyhoeddiadol y byddai rhagdybiaethau yn ymwneud â dwysedd safleoedd ac ardaloedd net y gellir eu datblygu yn gadael digon o dir heb ei ddatblygu o fewn y rhan fwyaf o safleoedd a ddyrannwyd i systemau draenio cynaliadwy gael eu cynnwys. Mae paragraffau 6.22 a 6.23 yr adroddiad hwn yn argymhell newidiadau priodol i gapasiti neu ffiniau safleoedd pedwar dyraniad tai lle gwelwyd nad oedd hyn yn wir.

Rhwymedigaethau cynllunio

- 4.13. Mae Polisi SW9, 'Rhwymedigaethau Cynllunio', yn darparu mecanwaith ar gyfer sicrhau bod pob datblygiad yn cael ei gefnogi gan seilwaith priodol, a lle bo angen, yn cyfrannu at ddarpariaeth tai fforddiadwy. Mae'r polisi a'r cyfiawnhad rhesymegol yn glir y ceisir rhwymedigaethau cynllunio dim ond yn unol â pholisi a deddfwriaeth genedlaethol. Yn hyn o beth, mae'r polisi'n cydnabod y gellir sicrhau rhwymedigaethau dim ond ar gyfer eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr Rheoliad 123⁴⁹ a fabwysiadwyd gan y Cyngor mewn perthynas â'r Ardoll Seilwaith Cymunedol, fel sy'n ofynnol gan reoliad 123(2) y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 cyfredol (fel y'u diwygiwyd)⁵⁰.
- 4.14. Er bod y targedau tai fforddiadwy ar safleoedd ar gyfer cynlluniau sy'n cynnwys 10 uned neu fwy yn alinio â chasgliadau'r dystiolaeth hyfywedd⁵¹, ni fyddai'r defnydd o'r gair 'dangosol' mewn perthynas â chanrannau penodedig yn rhoi digon o sicrwydd i ddatblygwyr neu dirfeddianwyr a dylid dileu'r gair. (**MAC12**). Fel arall, mae meini prawf 1 a 2 yn darparu sylfaen briodol ar gyfer sicrhau tai fforddiadwy neu gyfraniadau ariannol cyfatebol lle gellir cyfiawnhau'r rhain, gan gynnwys ar gyfer datblygiadau sy'n cynnwys rhwng 5 a 9 o gartrefi.
- 4.15. Mae maen prawf 3 y polisi yn ymwneud â darpariaeth mannau agored ar safleoedd preswyl â 10 neu fwy o gartrefi. Gan mai bwriad y polisi yw sicrhau darpariaeth mannau agored o faint penodol, mae ceisio 'gwelliant' i fannau agored yn achosi dryswch. Felly, dylid dileu hyn o'r polisi ac o baragraff 6.5.59, a dylid cadarnhau y ceisir mannau agored dim ond pan fo angen wedi'i nodi, fel sy'n ofynnol o dan brofion y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (**MAC12** a **MAC13**).
- 4.16. Mae'r cyfiawnhad rhesymegol ar gyfer polisi SW9 yn datgan y bydd darpariaeth mannau agored yn cael ei phennu yn unol â'r safonau sydd yn Strategaeth Mannau Agored y Cyngor⁵². Er nad wyf yn cwestiynu cywirdeb y Strategaeth Mannau Agored, ac rwy'n cydnabod ei gwerth o ran llywio'r mathau o fannau agored sydd i'w darparu ar safle, nid yw'r Cynllun, fel y'i cyflwynwyd, yn rhoi digon o eglurder na sicrwydd ynghylch faint o fannau agored sydd i'w sicrhau, na'r dull ar gyfer cyfrifo hyn gan gyfeirio at safleoedd datblygu penodol. Byddai **MAC13** a **MAC74** yn cywiro'r diffyg hwn trwy ddiwygiadau i'r cyfiawnhad rhesymegol ar gyfer polisi SW9, a thrwy ychwanegu atodiad newydd i'r Cynllun. Trwy nodi y gallai nodweddion systemau draenio cynaliadwy gyfrannu at yr angen meintiol am fannau agored, byddai **MAC13** yn cynorthwyo i sicrhau y cymhwysir y polisi yn effeithiol a chyson.

Casgliad

⁴⁹ Ar hyn o bryd, 'Rhestr Seilwaith Rheoliad 123 Merthyr Tudful, mis Mehefin 2014' [ED017]

⁵⁰ Cafodd y rheoliadau sy'n berthnasol ar hyn o bryd yng Nghymru eu diwygio ddiwethaf yn 2018

⁵¹ Asesiad Hyfywedd [SD34]

⁵² Strategaeth Mannau Agored Merthyr Tudful, mis Mehefin 2016 [SD47]

- 4.17. Dof i'r casgliad bod y Cynllun wedi'i seilio ar dystiolaeth gadarn a'i fod yn dangos y gellir ei gyflawni. Mae gobaith rhesymol y bydd y seilwaith strategol angenrheidiol yn dod ymlaen o fewn cyfnod y Cynllun. Mae'r dystiolaeth yn cadarnhau bod dyraniadau'r Cynllun yn ariannol hyfyw a gellir eu cyflawni. Mae Polisi SW9 yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer sicrhau rhwymedigaethau cynllunio priodol yn unol â Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 (fel y'u diwygiwyd).

5 Tai

Y gofyniad tai

- 5.1. Man cychwyn asesiad y Cyngor o ofyniad tai'r Cynllun oedd yr Amcanestyniadau Aelwydydd ar gyfer Cymru a wnaed yn 2014, sef yr amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf sydd ar gael a gyhoeddwyd gan LIC. O'u cymharu ag amcanestyniadau blaenorol, mae'r rhain yn rhagweld ychydig o ostyngiad ym mhoblogaeth y Fwrdeistref Sirol o ganol y 2020au ymlaen, yn bennaf oherwydd newidiadau mewn patrymau mudo rhwng gwledydd ac o fewn y wlad. Dros y cyfnod o 2014 i 2039, mae hyn yn cyfateb i gynydd net o 81 o aelwydydd yn unig.
- 5.2. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol i'r Cyngor drosi'r ffigwr hwn yn syml i ofyniad anheddau heb ymchwilio ymhellach i dderbynioldeb a chanlyniadau gwneud hynny. Yn hyn o beth, mae PCC⁵³ yn glir y bydd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diweddaraf a'r Cynllun Llesiant diweddaraf, ochr yn ochr â'r amcanestyniadau aelwydydd, yn ffurfio rhan sylfaenol o'r sylfaen dystiolaeth. Yn ogystal, mae PCC yn nodi y dylid ystyried tystiolaeth allweddol arall hefyd sy'n ymwneud ag ystod o faterion, megis cysylltiadau rhwng cartrefi a swyddi, yr angen am dai fforddiadwy a ffactorau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach.
- 5.3. Yn gyson â hyn, defnyddiodd y Cyngor feddalwedd POPGROUP i nodi ystod o ofynion tai ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, yn seiliedig ar brif amcanestyniad aelwydydd LIC a saith senario amgen a arweinir gan bolisi⁵⁴. Roedd y gofynion anheddau a luniwyd gan y rhagolygon gwahanol hyn yn amrywio rhwng 330 uned (ar gyfer prif amcanestyniad aelwydydd LIC) a 3,795 uned (ar gyfer y senario y mae'r CDLI presennol wedi'i seilio arno) yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r senarios a brofwyd yn y dystiolaeth hon yn seiliedig ar ragdybiaethau cadarn ac felly mae'r ystod ganlyniadol o ofynion tai posibl yn gredadwy.
- 5.4. Yn dilyn ymgysylltu â chynrychiolwyr o wahanol adrannau'r Cyngor, y sector gwirfoddol a chyrff cyhoeddus, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol, dewisodd y Cyngor gynnwys gofyniad anheddau o 2,250 uned yn y Cynllun. Mae hyn bron hanner ffordd rhwng y ddau ragolwg mwyaf eithafol. Mae'n amlwg y defnyddiwyd ystyriaethau perthnasol i lywio'r ffigwr a ddewiswyd ar gyfer y gofyniad tai, gan gynnwys Cynllun Lles Cwm Taf a oedd yn datblygu ar y pryd⁵⁵. O gymharu â phrif amcanestyniad LIC, byddai'r gofyniad tai a nodwyd â gobaith

⁵³ PCC Argraffiad 10 paragraff 4.2.6

⁵⁴ Papur Cefndir Poblogaeth a Thai [SD32]

⁵⁵ Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol [SD15]

gwell o wrthsefyll dirywiad yn y boblogaeth yn y tymor hwy, yn enwedig o ran mynd i'r afael â cholli pobl iau i ardaloedd eraill. Hefyd, byddai'n debygol o sicrhau nifer uwch o gartrefi fforddiadwy trwy'r system gynllunio, a gwneud mwy o gyfraniad drwy hynny i'r angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diweddaraf⁵⁶.

- 5.5. Mae rhai wedi dadlau nad yw'r gofyniad tai yn adlewyrchu statws Merthyr Tudful fel anheddiad allweddol yng Nghynllun Gofodol Cymru ac y dylai fod yn uwch. Serch hynny, mae PCC yn datgan bod yn rhaid i'r gofyniad tai a nodir gan yr awdurdod cynllunio fod yn ymarferol a bod modd ei fodloni⁵⁷. Fel y gwelwyd yn nata diweddar y Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai⁵⁸, sy'n darparu cofnod cywir a chyson o dai a gwblhawyd ar lefel leol⁵⁹, mae'n amlwg na wireddwyd y targed uchelgeisiol ar gyfer twf o ran tai a osodwyd gan y CDLI presennol. Er bod y CDLI mabwysiedig yn ymestyn dros gyfnod o ddirwasgiad ac adferiad, mae'n bwysig bod cylchredau economaidd yn cael eu hystyried yn strategaeth dwf y Cynllun. Rwyf o'r farn bod y gofyniad tai o 2,250 uned a nodwyd ym mholisi SW1 'Darparu Cartrefi Newydd' yn taro cydbwysedd priodol rhwng realaeth a dyhead. Mae iddo sail gadarn.

Tai fforddiadwy

- 5.6. Yn unol â nod polisi cenedlaethol⁶⁰, defnyddiwyd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol diweddaraf i nodi angen 'digi-fyngiad' am 5,490 o anheddau fforddiadwy yn ystod cyfnod y Cynllun, sy'n cynnwys unedau rhent cymdeithasol yn bennaf. Er bod yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol hwn yn ymwneud â'r cyfnod rhwng 2014 a 2019, mae'n parhau i fod y diweddaraf sydd ar gael. Er bod dadansoddiad mwy diweddar o gofrestr dai'r Cyngor yn dangos y gallai cyfanswm yr angen fod ychydig yn is mewn gwirionedd, serch hynny, byddai'n parhau i ragori'n fawr ar ofyniad anheddau'r Cynllun ar gyfer anheddau marchnad ac anheddau fforddiadwy⁶¹. O ganlyniad, mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol cyfredol yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer amcangyfrif anghenion tai fforddiadwy yn ystod cyfnod y Cynllun.
- 5.7. Mae Polisi SW9, 'Rhwymedigaethau Cynllunio', â'r nod o sicrhau bod tai fforddiadwy yn cael eu darparu ar safleoedd preswyl, gan ystyried hyfywedd. Mae'r polisi'n gosod lefelau targed ar safleoedd o 10% o dai fforddiadwy yn y Brif Ardal Twf a 5% yn yr Ardal Twf Arall i gynigion ar gyfer 10 cartref neu fwy; a chyfraniadau ariannol yn lle darpariaeth ar y safle ar gyfer cynlluniau sy'n cynnwys rhwng 5 a 9 annedd. Mae'r dull polisi hwn yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r asesiad hyfywedd ar draws y cynllun⁶², sy'n defnyddio'r dull gweddilliol i brofi hyfywedd damcaniaethol 11 safle ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae rhagdybiaethau a ddefnyddir yn yr astudiaeth, gan gynnwys rhaniadau yn ôl deiliadaeth a gwerthoedd y 'Canllawiau Costau Derbyniol', yn briodol i'r cyd-destun lleol ac yn gyson â thystiolaeth o anghenion tai fforddiadwy. Mae dadansoddiadau sensitifrwydd a gynhaliwyd fel rhan o'r asesiad hefyd yn cadarnhau priodoldeb defnyddio'r targedau a ddewiswyd sy'n wahanol mewn

⁵⁶ Asesiad o Farchnad Dai Leol Merthyr Tudful 2014-19 [SD28]

⁵⁷ PCC Argraffiad 10 paragraff 4.2.4

⁵⁸ Cyd-astudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018 [SD56]

⁵⁹ Ymateb y Cyngor i Bwynt Gweithredu 3.1 [ED045]

⁶⁰ PCC Argraffiad 10 paragraff 4.2.6

⁶¹ Datganiad Ysgrifenedig y Cyngor ar gyfer Gwrandawriad 3

⁶² Asesiad Hyfywedd [SD34]

mannau penodol i sicrhau'r ddarpariaeth orau o dai fforddiadwy ledled y Fwrdeistref Sirol.

- 5.8. Yn amodol ar y newidiadau a argymhellir ym mharagraff 5.18 yr adroddiad hwn, mae polisi SW2 'Darparu Tai Fforddiadwy' yn nodi targed tai fforddiadwy 'cyfyngedig' o 253 annedd ar gyfer cyfnod y Cynllun. Er bod hyn yn gyfran gymedrol o gyfanswm yr angen a nodwyd, mae'r targed yn ymwneud yn unig â thai fforddiadwy i'w cyflawni gan ddatblygu a arweinir gan y farchnad, a dyma'r uchafswm y gellid ei sicrhau'n hyfyw yn y modd hwn⁶³.
- 5.9. Mae dadansoddiad diweddar y Cyngor o'i gofrestr tai yn cadarnhau, yn gyson â chanfyddiadau'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, mai'r ardaloedd â'r angen mwyaf yw wardiau Cyfarthfa, Dowlais, Penyarden a'r Dref⁶⁴. Mae dosbarthiad gofodol y dyraniadau tai yn alinio'n fras â'r patrwm hwn o angen⁶⁵, gan wneud y gorau o'r cyfraniad a wneir gan gynigion a arweinir gan y farchnad i fynd i'r afael ag anghenion tai fforddiadwy lleol.
- 5.10. Mae llythyr a anfonwyd at awdurdodau lleol gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar 8 Gorffennaf 2019⁶⁶ yn tanlinellu'r angen i ganolbwyntio sylw ar ddarparu tai fforddiadwy, yn enwedig o ystyried yr angen dybryd am dai rhent cymdeithasol ledled Cymru, ac mae'n datgan, wrth adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol, y mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol wneud darpariaeth ar gyfer safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy, i gynnwys o leiaf 50% o dai fforddiadwy.
- 5.11. Mae llythyr y Gweinidog yn nodi bod yr amcangyfrifon diweddaraf o anghenion tai ar sail deiliadaeth, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019, yn nodi bod anheddau ar gyfer rhent cymdeithasol neu ganolradd yn cyfrif am 47% o gyfanswm yr angen am dai ledled Cymru. Er bod yr ystadegau hyn yn dyddio ar ôl yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a gynhaliwyd gan y Cyngor, maent yn atgyfnerthu canfyddiadau'r dystiolaeth leol; h.y. bod angen sylweddol am dai fforddiadwy, yn enwedig anheddau rhent cymdeithasol, yn y Fwrdeistref Sirol.
- 5.12. Gan fod y Cynllun wedi symud ymlaen eisoes ymhell heibio'r cam adolygu, byddai'n drafferthus i gymhwyso'r gofyniad polisi diwygiedig yn ôl-weithredol i ddyraniadau safleoedd y Cynllun. Serch hynny, er nad yw'r Cynllun yn cynnwys yn benodol unrhyw safleoedd ar arweinir gan dai fforddiadwy, mae dau ddyraniad eisoes wedi darparu tai fforddiadwy 100%⁶⁷. Mae Safle SW3.11 (Stryd y Dwyrain, Dowlais) yn eiddo i Gymdeithas Tai Merthyr Tudful, ac yn ogystal, mae'r Cyngor wedi cofnodi diddordeb gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddatblygu dau safle ychwanegol⁶⁸.
- 5.13. Ar ben hynny, mae'r Cyngor yn berchen ar nifer o safleoedd a ddyrannwyd. Mae gobaith gwirioneddol y gallai argaeledd ffrydiau gwahanol o gyllid cyhoeddus⁶⁹ roi hwb i gyfran y tai fforddiadwy a sicrhau'r safleoedd hyn, neu'n wir safleoedd eraill a ddyrannwyd. Fel y dangosir gan y ddau ddyraniad y cyfeiriwyd

⁶³ ibid.

⁶⁴ Datganiad Ysgrifenedig y Cyngor ar gyfer Gwrandawriad 3

⁶⁵ Tabl 4, Papur Cefndir Cyflenwad Tir ar gyfer Tai a'r Trywydd [SD29]

⁶⁶ Atodiad i ymateb y Cyngor i Bwynt Gweithredu 3.4 [ED045]

⁶⁷ SW3.18 – Hen Eglwys Sant Pedr a Sant Paul; SW3.27 – Clos y Rheilffordd

⁶⁸ Ymateb y Cyngor i Bwynt Gweithredu 3.4 [ED045]

⁶⁹ E.e. Grant Tai Cymdeithasol/Grant Cyllid Tai; Rhaglen Fyddsoddi mewn Adfywio a Dargedir

atynt eisoes, mae'n bosibl y gallai cyfran y tai fforddiadwy a gyflawnir fod yn sylweddol uwch na'r targedau penodol i safle a nodwyd ym mholisi SW9, 'Rhwymedigaethau Cynllunio'. Fodd bynnag, gan nad oes unrhyw sicrwydd ar hyn o bryd ynghylch y lefel a ragwelir o gymhorthdal cyhoeddus y gellid ei sicrhau ar gyfer safleoedd penodol, byddai gofyniad am ddarparu o leiaf 50% o unedau mewn deiliadaeth fforddiadwy yn unrhyw un o ddyraniadau'r Cynllun yn gallu peryglu eu cyflawni. Gallai hyn rwystro darpariaeth tai fforddiadwy sydd yn fawr eu hangen yn y Fwrdeistref Sirol.

- 5.14. O ganlyniad, rwyf o'r farn mai'r targed tai fforddiadwy a nodir ym mholisi SW2 yw'r lefel uchaf y gellir ei chyfiawnhau yn ôl y dystiolaeth sydd ar gael ac fe'i pennwyd mewn modd sy'n gyson â pholisi cenedlaethol⁷⁰. O ystyried argaeledd posibl cymhorthdal cyhoeddus dros gyfnod y Cynllun, a nifer y safleoedd sydd ym mherchenogaeth y Cyngor neu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, mae gobaith da y bydd tai fforddiadwy ychwanegol yn cael eu sicrhau uwchlaw'r lefelau targed a nodwyd yn y Cynllun. Er nad oes unrhyw ddyraniadau safleoedd wedi'u nodi fel rhai a arweinir gan dai fforddiadwy, cyfiawnheir hynny gan y dystiolaeth a byddai'n rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen ar berchenogion safleoedd a datblygwyr i gynnal cyflenwad o dai fforddiadwy.
- 5.15. Er gwaethaf hyn, fel y ceisir gan bolisi cenedlaethol, dylai'r Cynllun gefnogi cyfrannau uwch o dai fforddiadwy lle mae cymorthdaliadau cyhoeddus ar gael i sicrhau hyn. Yn unol â hynny, dylid diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol dros bolisi SW2 i gefnogi cynigion diamwys a arweinir gan dai fforddiadwy (**MAC4.6**) ac i egluro bod targedau penodedig ar safleoedd yn ymwneud ag unedau fforddiadwy sy'n cael traws-gymhorthdal gan y farchnad (**MAC4.4**).
- 5.16. Byddai cynnwys trywydd penodol ar gyfer darparu tai fforddiadwy hefyd yn galluogi'r Cyngor i fonitro'n gywir y modd y darperir tai fforddiadwy (**MAC71**), gan annog adolygiad o'r Cynllun os na chyrhaeddir y targed sylfaenol. Yn amodol ar y newidiadau a argymhellir, dof i'r casgliad bod polisiau a darpariaethau tai fforddiadwy'r Cynllun wedi'u cefnogi gan dystiolaeth gadarn, eu bod yn gyson ag amcanion polisi cenedlaethol a'u bod yn ddigon hyblyg.

Y cyflenwad tai

- 5.17. Fel y'i cyflwynwyd, roedd polisi SW1 'Darparu Cartrefi Newydd' yn gwneud darpariaeth ar gyfer 2,820 o anheddau yn ystod cyfnod y Cynllun, gan gynrychioli lwfans hyblygrwydd o 25% yn uwch na'r gofyniad sylfaenol. Mae'r Cyngor o'r farn bod angen clustogi cymaint â hyn oherwydd ffocws y Cynllun ar dir a ddatblygwyd o'r blaen ac oherwydd cyfyngiadau topograffig lleol ac ar y ddaear. Ni chyflwynwyd llawer o dystiolaeth gymhellol yn erbyn y safbwynt hwn. Er na chymhwyswyd 'disgownt am beidio â chyflenwi' ar wahân ar gyfer y safleoedd ymrwymedig, rwyf o'r farn bod y lwfans hyblygrwydd yn ddigon uwchlaw'r gofyniad sylfaenol i gyfrif am unrhyw ddyraniadau, caniatâd cynllunio neu ddatblygiadau ar hap sy'n cyflenwi llai o unedau tai nag a ragwelwyd yn y trywydd.
- 5.18. Am resymau a roddir mewn man arall yn yr adroddiad hwn, argymhellaf newidiadau i rai dyraniadau tai, gan gynnwys diwygio'r amcangyfrif o nifer yr unedau i'w cynnwys ar rai safleoedd a nodwyd ym mholisi SW3 'Dosbarthu

⁷⁰ PCC Argraffiad 10 paragraff 4.2.28; Atodiad i ymateb y Cyngor i Bwynt Gweithredu 3.4 [ED045]

Cartrefi Newydd yn Gynaliadwy' ac Atodiad 1 'Manylion Dyrannu Safleoedd'. Mae'r newidiadau hyn yn eu tro yn diwygio cyfanswm ffigwr y ddarpariaeth tai o 2,820 i 2,821 o anheddau (**MAC4.1, MAC4.2 a MAC4.5**); yn addasu ffigyrau capasiti ac amserlenni cyflenwi ar gyfer dyraniadau a nodwyd ym mholisi SW3 a'i gyfiawnhad rhesymegol (**MAC4.7 a MAC4.8**); ac yn addasu'r targed tai fforddiadwy a chydannau'r cyflenwad tai fforddiadwy a nodwyd o dan bolisi SW2 (**MAC4.3 a MAC4.5**). Fodd bynnag, gan y byddai ffigwr cyffredinol y cyflenwad tai bron yn ddigyfnewid, byddai'r lwfans hyblygrwydd yn aros ar 25%.

- 5.19. Mae Tabl 2 y Cynllun yn nodi cydrannau gwahanol y cyflenwad tai. Byddai **MAC5** yn diweddarau hyn i ystyried newidiadau eraill a gododd yn ystod yr archwiliad ac felly fe'i hargymhellir. Mae'r tabl yn nodi lwfansau ar gyfer safleoedd bach ar hap, o dan 10 uned, ac ar gyfer safleoedd ar hap mwy o faint. Mae'r olaf wedi'i lywio gan asesiad o ddatblygiadau ar hap blaenorol dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae hwn yn feincnod lleol priodol i'w ddefnyddio.
- 5.20. Byddai safleoedd ar hap, mawr a bach, yn cyfrif am tua 20% o gyfanswm y cyflenwad tai. Mewn cymhariaeth, byddai dyraniadau safleoedd yn cynnwys tua 56% o gyfanswm y cyflenwad, gyda thai a gwblheir a chaniatâd sy'n bodoli yn cyfrannu tua 23%. Felly, nid yw'r Cynllun yn dibynnu'n ormodol ar safleoedd ar hap i sicrhau cyflenwad tir iach a chyson ar gyfer tai. Rwy'n gweld bod yr amcangyfrifon ar safleoedd ar hap yn briodol yn yr amgylchiadau lleol ac wedi'u diffinio'n gywir yn y Cynllun.
- 5.21. Mae rhai o'r safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun â chaniatâd cynllunio neu maent wedi'u cwblhau neu wrthi'n cael eu hadeiladu. Er bod canllawiau LIC ar CDLI⁷¹ yn cynghori y byddai safleoedd â chaniatâd cynllunio yn cael eu nodi fel arfer fel 'ymrwymadau' yn hytrach na dyraniadau, mae tystiolaeth y Cyngor⁷² yn dangos yn ddigonol na fu unrhyw gyfrif dwbl rhwng cydrannau gwahanol y cyflenwad tai. O ystyried hyn, nid oes unrhyw beth sy'n ansicr yn y bôn ynghylch dyrannu safleoedd ymrwymedig yn y Cynllun hwn.
- 5.22. Mae'r safleoedd tai a ddyrennir ym mholisi SW3 yn amrywio o ran maint a lleoliad a byddent yn darparu rhywfaint o ddewis a hyblygrwydd i ddatblygwyr. Er bod nifer o'r safleoedd hyn eisoes wedi'u dyrannu yn y CDLI presennol ac nid ydynt wedi'u cyflawni yn unol â'r amserlenni a ragwelwyd pan fabwysiadwyd y cynllun hwnnw ym mis Mai 2011, ni ellir anwybyddu y cafodd y CDLI presennol ei baratoi yn ystod cyfnod o ddirwasgiad. Er y cafwyd tystiolaeth o adferiad economaidd yn y Fwrdeistref Sirol yn fwy diweddar⁷³, mae'n amlwg y bu hyn yn arafach nag oedd y disgwyl yn 2011⁷⁴. Ar ben hynny, mae'r Cynllun hwn yn ceisio darparu tai ar gyfradd fwy realistig na'r CDLI presennol, gan ystyried ffactorau marchnad gan gynnwys capasiti'r diwydiant adeiladu tai⁷⁵.
- 5.23. Mae'r rhain yn ffactorau arwyddocaol sy'n cyfiawnhau 'ailddyrannu' rhai safleoedd yn y Cynllun hwn. Ar ben hynny, mae'r amserlenni cyflenwi safleoedd

⁷¹ Y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol Argraffiad 2 paragraff 7.2.2.9; Drafft y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Argraffiad 3 paragraff 5.62

⁷² Papur Cefndir Cyflenwad Tir ar gyfer Tai a'r Trywydd [SD29]; Datganiad Ysgrifenedig y Cyngor ar gyfer Gwrandawriad 3

⁷³ Adolygiad Tir Cyflogaeth, Tabl 3 [SD35]

⁷⁴ Fel y mynegwyd ym 'Mhrif Nod' CDLI Merthyr Tudful 2006-2021 [SD57]

⁷⁵ Datganiad Ysgrifenedig y Cyngor ar gyfer Gwrandawriad 3

yn adlewyrchu canfyddiadau Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2018 i raddau helaeth. Lle y rhagwelir y bydd safleoedd a ddyrannwyd yn dod ymlaen cyn yr amserlenni a dybir yn y Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai, yn bennaf mae hyn oherwydd tystiolaeth fwy diweddar o fwriad datblygwyr.

- 5.24. Yn ymarferol, mae'n anochel y bydd cyfraddau cwblhau blynyddol yn wahanol i'r rhai a ragwelwyd. Serch hynny, rwy'n fodlon bod cyflenwad tai a thrywydd y Cynllun, fel y'i diweddarwyd i adlewyrchu newidiadau a gododd yn ystod yr archwiliad⁷⁶, yn ddigon realistig ac yn gyson â bwriad datganedig perchenogion a datblygwyr safleoedd. Byddai cynnwys y tabl, y graff a'r trywydd hwn fel atodiad i'r Cynllun (**MAC71**), wedi'i groesgyfeirio â dangosyddion monitro, targedau a phwyntiau sbarduno priodol (**MAC52**), yn galluogi'r Cyngor i olrhain cynnydd y Cynllun o ran bodloni'r ffigwr gofynion tai o 2,250 uned, a chynnal cyflenwad priodol o dir ar gyfer tai trwy gydol cyfnod y Cynllun, yn unol â nod polisi cenedlaethol.

Anghenion tai arbenigol

- 5.25. Cafodd Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr y Cyngor ei gymeradwyo gan LIC ym mis Hydref 2018 yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014. Gan nad yw'r asesiad yn nodi unrhyw angen am leiniau ychwanegol yn y Fwrdeistref Sirol yn ystod cyfnod y Cynllun, nid oes angen dyraniadau ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr o fewn y Cynllun. Mae Polisi SW8 'Llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn' yn gyson â pholisi a chanllawiau cenedlaethol ac mae'n darparu sylfaen foddhaol ar gyfer asesu unrhyw geisiadau nas rhagwelwyd ar hyn o bryd am safleoedd preswyl neu dramwy yn ystod cyfnod y Cynllun.
- 5.26. Nid yw'r Cynllun yn cynnwys polisi penodol i sicrhau llety preswyl sy'n addas ar gyfer pobl hŷn neu anabl. Er nad wyf yn anghytuno y gallai tystiolaeth o'r galw am dai o'r math hwn a arweinir gan y farchnad ym Merthyr Tudful fod yn gyfyngedig, mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn nodi angen am lety ar gyfer pobl hŷn⁷⁷ ac mae amcan yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i fodloni anghenion tai pawb trwy gymysgedd o deiliadaethau a mathau o anheddau. Mae polisi cenedlaethol hefyd â'r nod o ddarparu ar gyfer ystod o anghenion tai, gan gynnwys cymunedau deiliadaeth gymysg â thai 'dirwyst'r⁷⁸.
- 5.27. O ganlyniad, dylid ychwanegu maen prawf newydd at bolisi SW11 'Dylunio a Chreu Lleoddd Cynaliadwy' i annog darpariaeth ystod o fanylebau dylunio, mathau o dai, deiliadaeth a meintiau cynhwysol/addasadwy i fodloni anghenion lleol a nodwyd lle bo hynny'n briodol (**MAC17**), gan wneud newidiadau cyfatebol i'r cyfiawnhad rhesymegol (**MAC18**). Mae'r newidiadau hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau Papur Briffio Effeithiau ar Gydraddoldeb y Cyngor⁷⁹ a byddent yn sicrhau bod y Cynllun â'r nod o fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig, ond gan gadw lefel briodol o hyblygrwydd hefyd. Byddai'r newidiadau'n cyd-fynd â pholisi cenedlaethol, yn ogystal. Felly, fe'u hargymhellir.

Casgliad

⁷⁶ Ymateb y Cyngor i Bwynt Gweithredu 3.3

⁷⁷ Tudalen 43 yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2014-19 [SD28]

⁷⁸ PCC Argraffiad 10 paragraffau 4.2.1 a 4.2.11

⁷⁹ Papur Briffio Effeithiau ar Gydraddoldeb, mis Mai 2019 [ED007b]

- 5.28. Am y rhesymau uchod, dof i'r casgliad bod sail gadarn i'r ffigwr o 2,821 o unedau ar gyfer y cyflenwad tai yn ystod cyfnod y Cynllun ac y byddai'n darparu digon o hyblygrwydd i gyflawni'r gofyniad tai o 2,250 o anheddau. Hefyd, byddai'r Cynllun yn cyfrannu'n briodol at fodloni anghenion a nodwyd ar gyfer tai fforddiadwy ac anghenion penodol unigolion a grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae trywydd tai'r Cynllun yn realistig ac mae ganddo obaith rhesymol o ddarparu a chynnal cyflenwad priodol o dir ar gyfer tai ar ôl ei fabwysiadu. Byddai dangosyddion monitro, targedau a sbardunau yn gysylltiedig â'r trywydd tai yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer olrhain gweithrediad y Cynllun yn hyn o beth.

6 Safleoedd a dyraniadau tai strategol

- 6.1. Mae Polisi SW3, 'Dosbarthu Cartrefi Newydd yn Gynaliadwy', yn dyrannu nifer o safleoedd ar gyfer tai. Mae'r rhain wedi bod yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd priodol a ystyriodd eu haddasrwydd yn erbyn ystod o opsiynau.
- 6.2. Mae'r dyraniadau tai sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun a gyflwynwyd, a phedwar dyraniad safle ychwanegol a gyflwynwyd gan y Cyngor yn ystod yr archwiliad, yn briodol, yn gyflawnadwy ac yn gyson â strategaeth y Cynllun. Yn amodol ar y diwygiadau a nodir yn yr adroddiad hwn, nid oes unrhyw ddyraniadau safleoedd ymgeisiol amgen sy'n amlwg yn well na'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun. Er bod rhai wedi cwestiynu a yw ffiniau dyraniadau safleoedd wedi'u diffinio'n briodol, yn enwedig ar gyrion aneddiadau dynodedig, rwyf o'r farn bod y ffiniau a gyflwynwyd gan y Cyngor yn rhesymegol, yn amddiffynadwy, ac yn unol yn fras ag amcanion y Cynllun a pholisi cenedlaethol. Felly, nid oes angen gwneud unrhyw newidiadau nac estyniadau pellach i safleoedd a ddyrannwyd er mwyn bodloni anghenion a nodwyd.

Gofynion o ran dyrannu safleoedd

- 6.3. Mae Atodiad 1, 'Manylion Dyrannu Safleoedd', yn ategu polisi SW3, 'Dosbarthu Cartrefi Newydd yn Gynaliadwy'. Mae'n nodi gwybodaeth berthnasol sy'n benodol i safle ar gyfer safleoedd a ddyrannwyd, heb fod yn rhy ragnodol. Fodd bynnag, gan nad oes statws polisi gan y 'Gofynion Seilwaith Cyffredinol' a restrir yn Atodiad 1, dylid diwygio'r testun sy'n ymwneud ag asesiadau modelu hydrologig i'w gwneud yn glir mai dim ond lle y bo'n briodol y bydd angen y rhain (**MAC64**).
- 6.4. Byddai ychwanegu amserlen seilwaith at y Cynllun hefyd yn darparu eglurder angenrheidiol i ymgeiswyr ynghylch gofynion seilwaith posibl a chostau datblygu safleoedd tai a ddyrannwyd (**MAC73**).

Ardal Adfywio Strategol Hoover

- 6.5. Mae Ardal Adfywio Strategol Hoover wedi'i lleoli yn union i'r de o dref Merthyr Tudful, ger llinell reilffordd Cwm Taf a rhwng cefnffyrdd yr A470 a'r A4060. Byddai Polisi SW6 y Cynllun yn berthnasol i'r defnyddiau a'r daliadau tir gwahanol sy'n dod o fewn ffin Ardal Adfywio Strategol Hoover, fel y'i dynodir ar y Map Cynigion.

- 6.6. Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae'r Ardal Adfywio Strategol Hoover yn allweddol i strategaeth y Cynllun. Mae'n cynnwys safleoedd a ddyrannwyd yn benodol ar gyfer naill ai defnydd tai neu gyflogaeth, ac mae eu manylion wedi'u nodi yn Atodiad 1 y Cynllun. Mae ffin Ardal Adfywio Strategol Hoover hefyd yn cynnwys tir ar gyfer prosiectau trafndiaeth ac ystod o safleoedd eraill a allai gynnig cyfleoedd datblygu yn y dyfodol, yn enwedig i'r gorllewin o Afon Taf.
- 6.7. Gan adlewyrchu uwchgynllun fframwaith ar gyfer Ardal Adfywio Strategol Hoover a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018 ac a baratowyd ar ran LIC, Trafnidiaeth Cymru a'r Cyngor⁸⁰, mae polisi SW6 yn nodi egwyddorion dylunio creu lleoedd cynaliadwy ar gyfer cynigion a leolir yn yr ardal ddynodedig. Mae'r egwyddorion a nodwyd yn briodol, yn berthnasol i Ardal Adfywio Strategol Hoover, wedi'u mynegi'n ddigon hyblyg ac maent yn gyson â'r manylion dyrannu safleoedd a nodir yn Atodiad 1 y Cynllun. Byddai ychwanegu Cynllun Cysyniad dangosol i gefnogi polisi SW6 yn darparu eglurder pellach ynghylch sut a ble y byddai'r egwyddorion creu lleoedd a nodwyd yn cael eu defnyddio, gan sicrhau gweithrediad effeithiol y polisi (**MAC10**).
- 6.8. Mae diweddariadau diweddar i'r Mapiau Cyngor Datblygu sy'n gysylltiedig â TAN 15 'Datblygu a Pherygl Llifogydd' wedi addasu'r amlinelliad ar gyfer parth llifogydd C2 fel y'i dangosir yn y Cynllun Cysyniad ym **MAC10**⁸¹. Serch hynny, mae'r Cynllun Cysyniad yn nodi'n glir ei fod yn ddiagramatig yn unig ac y dylai fod yn destun profion ac addasiadau trylwyr yn unol ag egwyddorion creu lleoedd. Gan fod y Cynllun Cysyniad yn amlwg yn isradd o ran statws i TAN 15 a'r Mapiau Cyngor Datblygu cysylltiedig⁸², sy'n cael eu diweddaru'n rheolaidd, nid oes angen addasu'r amlinelliad llifogydd er cadernid. Mater i'r Cyngor ei benderfynu yw a ddylid gwneud diweddariad ffeithiol i'r Cynllun Cysyniad a/neu fân newid cysylltiedig i'r cyfiawnhad rhesymegol yn hyn o beth.
- 6.9. Mae Polisi SW6 â'r nod priodol o sicrhau bod prosiectau'n cael eu cyflawni sy'n hanfodol i sicrhau bod Ardal Adfywio Strategol Hoover yn fwy hygyrch trwy ddulliau trafndiaeth gynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys prosiectau teithio llesol, ond hefyd, sy'n bwysig, canolfan drafnidiaeth ym Mhentrebach a gorsaf newydd bosibl yn agos at bont Abercannaid. Bydd lleoliad bras y tir sydd i'w ddiogelu ar gyfer cynlluniau o'r fath yn cael ei nodi yn y Cynllun Cysyniad. Byddai gwneud hyn yn taro cydbwysedd priodol rhwng sicrwydd a hyblygrwydd a byddai'n unol â TAN 18 'Trafndiaeth'⁸³.
- 6.10. Mae Polisi SW6 yn nodi'r cwantwm disgwylidig o ddefnyddiau preswyl, manwerthu a chyflogaeth i'w cyflawni yn Ardal Adfywio Strategol Hoover yn ystod cyfnod y Cynllun, ynghyd â seilwaith ategol. Mae'r ffigyrau a nodwyd yn cyd-fynd yn fras â'r uwchgynllun fframwaith ac mae'r dogfennau technegol cysylltiedig⁸⁴ yn dangos bod modd cyflawni'r cwantwm defnyddiau a gynigir. Fodd bynnag, byddai nodi'r lleiafswm o fannau agored i'w darparu trwy ailddatblygu, ar sail y gofynion ar lefel ward ar gyfer rhandiroedd, gofod dinesig, mannau gwyrdd amwynder, mannau chwarae a pharciau cyhoeddus⁸⁵,

⁸⁰ Dogfen Uwchgynllun Fframwaith Ardal Adfywio Strategol Hoover, mis Mehefin 2018 [SD49]

⁸¹ Ymateb y Cyngor i'r Arolygydd ynghylch sylwadau MAC, mis Hydref 2019 [ED061a]

⁸² Fel y cyfeirir ym mholisi EnW4 y Cynllun, 'Diogelu'r Amgylchedd'

⁸³ Nodyn Cyngor Technegol 18 – Trafnidiaeth, paragraff 8.22

⁸⁴ Asesiad Trafnidiaeth Strategol Ardal Adfywio Strategol Hoover [SD51] ac Astudiaeth Ddesg Geodechnegol Ardal Adfywio Strategol Hoover [SD51]

⁸⁵ Strategaeth Mannau Agored Merthyr Tudful, paragraff 3.18 [SD47]

yn rhoi'r sicrwydd a'r eglurder angenrheidiol i ymgeiswyr a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau (**MAC9**).

- 6.11. Mae Ffatri Hoover yn elfen hanfodol o Ardal Adfywio Strategol Hoover. Daeth gweithgynhyrchu i ben ar y safle hwn yn 2008. Er ei bod yn parhau i gael ei defnyddio ar gyfer cyfleusterau dosbarthu, TGCh a chanolfan alwadau, mae'r defnyddiau hyn yn debygol o ddod i ben ar ôl i LIC gaffael y safle, a fydd i ddigwydd ar ddiwedd 2019. Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd angen cyfnod o 4 blynedd i alluogi cynnal gwaith arolygu perthnasol, llunio cynigion manwl, sicrhau caniatâd, a dechrau ar y gwaith adeiladu i sicrhau ailddatblygiad fel safle a arweinir gan breswyl. Yn ôl y trywydd tai diwygiedig, mae'r 55 uned gyntaf wedi'u hamserlenni i gael eu cwblhau yn 2023, gyda'r un nifer yn cael eu hadeiladu bob blwyddyn wedi hynny. Mae'r rhain yn amserlenni heriol ond cyraeddadwy.
- 6.12. Mae'n amlwg bod y maes chwaraeon presennol ar safle Ffatri Hoover wedi'i gynnal a'i gadw ers sawl blwyddyn gan wirfoddolwyr, ac fe'i defnyddir gan dimau a chlybiau criced cenedlaethol a lleol. Mae polisi cenedlaethol⁸⁶ yn nodi y dylid gwarchod caeau chwarae, boed yn eiddo preifat neu'n eiddo cyhoeddus, rhag datblygu ac eithrio mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft lle mae gormodedd o ddarpariaeth o'r fath yn yr ardal leol. Yn yr achos hwn, ni fyddai colli'r maes chwaraeon yn arwain at ddiffyg mannau a meysydd chwaraeon awyr agored, gan fod darpariaeth ddigonol yn ward Plymouth mewn perthynas â'r boblogaeth⁸⁷. Mae Clwb Criced Hills Plymouth, er enghraifft, wedi'i leoli o fewn pellter taith gerdded fer i'r dwyrain o faes Ffatri Hoover. Sylwaf hefyd nad oes unrhyw wrthwynebiad i golli maes chwaraeon Ffatri Hoover gan Gyngor Chwaraeon Cymru neu Fields in Trust, y mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau⁸⁸ yn nodi yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod llunio'r Cynllun. Rwyf o'r farn bod y dystiolaeth yn cyfiawnhau colli'r maes chwaraeon.
- 6.13. Mae Polisi SW6 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad newydd 'adlewyrchu' ffasâd gwreiddiol Ffatri Hoover, sy'n dyddio o 1948, yn y ffurf adeiledig, ond nid yw'n atal dymchwel hwn neu unrhyw strwythurau eraill yn benodol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth gymhellol ger fy mron, gan Cadw neu bartïon eraill, bod gobaith rhesymol y bydd unrhyw strwythurau ar y safle'n cael eu rhestru'n statudol. O ganlyniad, nid oes unrhyw gyfiawnhad dros ei gwneud yn ofynnol i gadw ffasâd y ffatri neu unrhyw adeiladau eraill. Felly, mae'r egwyddorion a nodir ym mholisi SW6 yn briodol.
- 6.14. Mae maes parcio Ffatri Hoover, sydd hefyd i'w gaffael gan LIC, wedi'i ddyrannu ar gyfer ystod o ddefnyddiau B. Byddai hyn yn ategu'r gydran a arweinir gan breswyl i'r gorllewin, ac ardal gyflogaeth bresennol yn union i'r de.
- 6.15. Mae rhai wedi cwestiynu a ddylid dyrannu safleoedd eraill o fewn Ardal Adfywio Strategol Hoover neu'n gyfagos iddi ar gyfer rhai defnyddiau, yn enwedig tir i'r gorllewin o'r afon. Mae uwchgynllun Ardal Adfywio Strategol Hoover ei hun yn cydnabod y cyfle i ailddatblygu'r lan orllewinol i greu ffryntiad cryf ar lan yr afon. Serch hynny, dyrannwyd safleoedd dim ond lle maent yn rhydd o gyfyngiadau anorchfygol, gan gynnwys perygl llifogydd. Yn absenoldeb unrhyw

⁸⁶ PCC Argraffiad 10, paragraff 4.5.4

⁸⁷ Strategaeth Mannau Agored Merthyr Tudful, paragraff 2.47 [SD47]

⁸⁸ Cytundeb Cyflenwi, tudalen 19 [SD19]

dystiolaeth o fuddsoddiadau wedi'u rhaglennu ar gyfer gwaith lliniaru llifogydd neu debyg, mae'n briodol bod safleoedd yn cael eu dyrannu dim ond lle mae dystiolaeth y gellir eu cyflawni o fewn cyfnod y Cynllun.

- 6.16. Mae lleiniau eraill o dir i'r gorllewin o Afon Taf sydd wedi'u dynodi'n Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, neu maent yn cynnwys cynefinoedd sydd o bwysigrwydd pennaf, ac sydd hefyd wedi'u heithrio, fel sy'n briodol, o ffin Ardal Adfywio Strategol Hoover. Fodd bynnag, nid oes unrhyw beth i atal safleoedd addas, lle maent wedi'u lleoli o fewn ffin yr anheddiad, rhag dod ymlaen fel safleoedd ar hap.
- 6.17. Yn amodol ar y newidiadau a argymhellir, rwyf o'r farn y byddai polisi SW6 yn darparu sylfaen briodol ar gyfer sicrhau a rheoli datblygiad Ardal Adfywio Strategol Hoover yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod y defnyddiau arfaethedig a'r amserlenni ar gyfer cyflenwi yn hyfyw ac yn gyflawnadwy. Mae'r rhagdybiaethau'n gadarn yn eu hanfod mewn perthynas â seilwaith, maent yn gyfredol ac yn gredadwy, heb unrhyw rwystrau anorchfygol amlwg rhag cynnal gwaith datblygu.

Safle Adfywio Hen Waith Dur Ivor

- 6.18. Mae Polisi SW7 yn berthnasol i hen Waith Dur Ivor yn Nowlais. Er bod y safle wedi'i nodi ar gyfer ei ailddatblygu yn y CDLI presennol fel 'Prosiect Heartland', mae costau sy'n gysylltiedig â thir wedi'i halogi a threftadaeth adeiledig wedi atal gwireddu'r cynigion ar gyfer ailddatblygu. Gan nad oes llawer o bendantrwydd y gellir sicrhau datblygiad yn ystod cyfnod y Cynllun, nid yw'r Cynllun yn dibynnu ar y safle hwn fel dyraniad i fodloni anghenion a nodwyd ar gyfer tai neu ddefnyddiau eraill.
- 6.19. Serch hynny, gan fod yr hen waith dur yn parhau i fod yn safle adfywio pwysig, mae'r Cynllun, yn briodol, yn cynnwys polisi i gefnogi ei ailddatblygiad. Fodd bynnag, mae polisi SW7 fel y'i cyflwynwyd yn amhendiant ac o bosibl yn anghyson â rhai o amcanion y Cynllun. Felly, dylid diwygio'r Cynllun i ddatgan y bydd cynigion priodol ar gyfer defnydd cymysg a arweinir gan breswyl yn cael eu cefnogi lle byddant yn cyfrannu at adfywio'r gymuned leol ac y gellir eu cyfiawnhau'n llawn (**MAC11**). Yn ogystal, byddai'r newidiadau hyn yn esbonio'r rhesymau dros y 'diffyg hyfywedd' presennol, gan ddarparu eglurder angenrheidiol i ymgeiswyr a'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau.

Dyraniadau tai

- 6.20. Mae'r Cynllun yn dyrannu nifer o safleoedd maes glas a thir llwyd eraill ar gyfer datblygu tai. Mae'n amlwg bod y Cyngor wedi ymgysylltu'n agos â hyrwyddwyr safleoedd a pherchenogion tir wrth baratoi'r Cynllun ac mae ganddo ddealltwriaeth drylwyr o gyfyngiadau posibl ar safleoedd ac amserlenni cyflenwi. Byddai cynnwys cyflenwad tir a thrywydd mewn atodiad i'r Cynllun, wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu newidiadau sy'n codi o'r archwiliad, yn sicrhau y byddai adolygiad o'r Cynllun yn cael ei sbarduno pe na bai dyraniadau'n cyfrannu at y cyflenwad tir ar gyfer tai fel y rhagwelwyd (**MAC71**).
- 6.21. Mae Safle SW3.5 (Erw Las, Gellideg) yn ymwneud ag ardal o dir agored sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Er nad yw'n bodloni'r safonau ansawdd a ddefnyddir yn y Strategaeth Mannau Agored i nodi mannau agored i'w gwarchod, mae'n amlwg

bod gan y safle'r potensial i ddarparu buddion amwynder gweledol a hamdden i drigolion. Wrth ei ddatblygu ar gyfer 10 annedd, byddai posibilrwydd o waethygu'r diffyg presennol o ran mannau gwyrdd amwynder yn ward Cyfarthfa. Felly, mae'r dyraniad yn mynd yn groes i nifer o amcanion y Cynllun, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â mannau agored, cyfleusterau cymunedol ac adfywio cymunedol, a dylid ei ddileu (**MAC4.7**, **MAC65** a **MapMAC11**).

- 6.22. Canfu Papur Cefndir Systemau Draenio Cynaliadwy'r Cyngor⁸⁹ y byddai rhagdybiaeth o 30 annedd yr hectar, yn seiliedig ar yr arwynebedd net y gellir ei ddatblygu ar safle, yn gadael digon o le ar gyfer seilwaith systemau draenio cynaliadwy ar safleoedd tai a ddyrannwyd. Mae'r papur yn argymhell estyn ffiniau safleoedd SW3.8 (i'r de o Barc y Castell) a SW3.15 (Ysgol Gynradd Goetre, Gurnos). Byddai **MapMAC1** a **MapMAC2** yn gwneud addasiadau priodol a rhesymegol i ffiniau ar y Map Cynigion er mwyn sicrhau y darperir y nifer disgwylidig o anheddau ar y ddau safle hyn. Er y byddai hyn yn arwain at safle SW3.8 yn ymwithio i mewn i Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur Gorllewin Winchfawr, byddai darparu seilwaith systemau draenio cynaliadwy ddim o reidrwydd yn gwrthdaro â'r buddiannau ecolegol a nodwyd. Er cysondeb ac eglurder mewnol, fodd bynnag, dylid diwygio Atodiad 1 y Cynllun i gyfeirio at y Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur fel cyfyngiad ar y safle (**MAC66**).
- 6.23. Fel y'u cyflwynwyd, tybiwyd y bydd safleoedd SW3.19 (Twynyrodyn) a SW3.21 (Gerddi Bradley 2) yn cyflawni 36 a 38 annedd yr hectar (net) yn y drefn honno. Mewn trafodaethau diweddar cyn cyflwyno cais, nodwyd nad yw'r naill safle na'r llall yn gallu cynnwys y dwyseddau hyn, yn rhannol oherwydd gofynion systemau draenio cynaliadwy. Mae hyn yn atgyfnerthu canfyddiadau'r Papur Cefndir Systemau Draenio Cynaliadwy o ran dwysedd safleoedd. Gan adlewyrchu'r dadansoddiadau safleoedd mwy diweddar a manwl, dylid lleihau capasiti a nodwyd y safleoedd hyn o 150 i 120 uned ar safle SW3.19 ac o 100 i 90 uned ar safle SW3.21 (**MAC4.7** a **MAC67**).
- 6.24. Mae safle SW3.30 (Stormtown, Trelewis) wedi'i ddyrannu ar gyfer 80 o anheddau. Mae'r Cynllun yn nodi y byddai tua 50% o'r safle yn parhau heb ei ddatblygu, gan ganiatáu drwy hynny i dai gael eu cynnwys ond gan gadw gwerth ar gyfer mannau gwyrdd amwynder hefyd. Mae Atodiad 1 y Cynllun yn nodi bod problemau yn ymwneud â'r cyflenwad dŵr yn effeithio ar y safle hwn ac na fyddai Cynllun Rheoli Asedau hyd at 2020 Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) yn mynd i'r afael â'r rhain. Er na fyddai hyn yn atal y safle rhag dod ymlaen cyn i'r gwaith gael ei wneud gan DCWW, dylid gohirio amserlen gyflenwi'r safle er mwyn gallu datrys y problemau â'r cyflenwad dŵr yn foddhaol (**MAC4.7** a **MAC67**).
- 6.25. Mae'r Cynllun yn rhagweld y byddai'r 30 annedd a gynigir ar safle SW3.31 (Cwmfelin, Bedlinog) yn cael eu gwasanaethu gan bwynt mynediad lle mae garejys ar hyn o bryd, sy'n rhan o ddaliad tir ar wahân. Nid oes llawer i nodi y gellid caffael y tir yn foddhaol ac yn hyfyw i sicrhau bod yr unedau tai cyntaf yn cael eu cwblhau erbyn 2027. Beth bynnag fo'r cyfyngiadau posibl eraill ar y safle, gan gynnwys mewn perthynas ag ecoleg, mae'r diffyg sicrwydd ynghylch mynediad i'r safle yn cynrychioli rhwystr sylweddol i'r gallu i gyflawni'r dyraniad, ac felly dylid ei ddileu (**MAC4.7**, **MAC65** a **MapMAC11**). Er gwaethaf hyn, mae'r safle mewn lleoliad da mewn perthynas â'r anheddiad presennol,

⁸⁹ ED009

gyda'r llinell reilffordd i'r dwyrain yn ffurfio ffin resymegol ac amddiffynadwy. Nid oes llawer o dystiolaeth gymhellol y byddai cyfyngiadau, gan gynnwys mewn perthynas â dynodiad Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, yn golygu bod datblygu'n briodol i'r lleoliad hwn mewn pentref, yn groes i strategaeth ac amcanion y Cynllun; ond beth bynnag, byddai hynny'n dibynnu ar natur unrhyw gynnig a byddai'n cael ei ystyried yn y cam cyflwyno cais cynllunio. Felly, mae ffin yr anheddiad wedi'i diffinio'n briodol.

- 6.26. Byddai rhai o'r diwygiadau i ddyraniadau safleoedd a amlinellir uchod yn arwain at ostyngiad yn narpariaeth tai gyffredinol y Cynllun. Er mwyn cadw digon o hyblygrwydd uwchlaw'r gofyniad sylfaenol, mae'r Cyngor wedi cynnig pedwar dyraniad ychwanegol: sef safleoedd SW3.36 (P and R Motors, Pentrebach), SW3.37 (Tir i'r de o Heol Bryniau, Pant), SW3.38 (Tir i'r gogledd o Dŷ Llwyd, Incline Top) a SW3.39 (Y Goedwig, Treharris).
- 6.27. Mae asesiadau a gynhaliwyd ar gyfer pob safle yn dangos y byddent yn gyffredinol yn unol â strategaeth y Cynllun ac amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, gellir eu cyflawni o fewn cyfnod y Cynllun a byddent yn cynorthwyo i gyfrannu at gyflenwad iach o dir ar gyfer tai. Mae'n amlwg bod pob safle yn well na dewisiadau amgen posibl eraill, gan gynnwys estyniadau i ffiniau safleoedd sydd eisoes wedi'u dyrannu yn y Cynllun. Ar ben hynny, mae gan bob dyraniad ganiatâd cynllunio amlinellol neu lawn.
- 6.28. Cadarnhaodd y Cyngor yn y gwrandawriad perthnasol y dylai caniatâd cynllunio mewn perthynas â thri o'r safleoedd hyn fod wedi'i nodi fel 'ymrwymadau' yn y trywydd tai a baratowyd ym mis Rhagfyr 2018, ond cawsant eu hepgor trwy gamgymeriad⁹⁰. Roedd gan y pedwerydd, sef safle SW3.36, ganiatâd cynllunio cyn 31 Mawrth 2018⁹¹, sef dyddiad sylfaen y trywydd tai. Felly, ni fyddai cynnwys y pedwar safle hyn fel dyraniadau yn cael fawr o effaith ymarferol ar y sefyllfa cyflenwad tai.
- 6.29. Am y rhesymau uchod, rwy'n ei chael hi'n briodol i gynnwys y pedwar safle ychwanegol hyn fel dyraniadau yn y Cynllun. Gyda'i gilydd, byddent yn ychwanegu 81 uned arall at ddarpariaeth tai'r Cynllun, a thrwy hynny'n cadw'r lwfans hyblygrwydd angenrheidiol o 25%. Byddai **MAC4.7, MAC68, MAC69, MapMAC3, MapMAC4, MapMAC5 a MapMAC6** yn cynnwys y dyraniadau ychwanegol hyn yn y Cynllun trwy ddiwygiadau i bolisi SW3, atodiadau'r Cynllun a'r Map Cynigion. Byddai **MAC71** yn diweddarau'r trywydd tai yn unol â hynny, a thrwy hynny'n sicrhau y byddai adolygiad o'r Cynllun yn cael ei sbarduno pe na bai dyraniadau'n cyfrannu at y cyflenwad o dir ar gyfer tai fel y rhagwelwyd.

Casgliad

- 6.30. Dof i'r casgliad, gyda'r newidiadau a nodir uchod, bod y dyraniadau safleoedd a'r polisïau a nodwyd ar gyfer safleoedd adfywio strategol ac allweddol o fewn y Fwrdeistref Sirol yn briodol ac yn gyflawnadwy.

⁹⁰ Ymateb y Cyngor i Bwynt Gweithredu 4.3 [ED045]

⁹¹ Adnewyddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ym mis Gorffennaf 2019

7 Cyflogaeth, manwerthu, twristiaeth a hamdden

Gofyniad, cyflenwad a dyraniadau tir ar gyfer cyflogaeth

- 7.1. Un o amcanion y Cynllun yw darparu a diogelu tir priodol ar gyfer datblygu economaidd a sgiliau. O ganlyniad, llywiwyd y Cynllun gan Adolygiad Tir Cyflogaeth (ELR) a gynhaliwyd yn 2018⁹².
- 7.2. Llywiwyd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth drwy ymgysylltu â chynrychiolwyr o sector busnes y fwrdeistref sirol. Canfu hyn rhagolygon cadarnhaol ar gyfer mewnfuddsoddiad, yn enwedig ar gyfer defnyddiau diwydiannol, ond prinder cyffredinol o unedau diwydiannol a warysau o bob maint. Gan ystyried ffactorau perthnasol, fel y cyflenwad o dir ar gyfer cyflogaeth a nodweddion safleoedd presennol, mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn rhagweld angen meintiol am 14.46 hectar (ha) o dir ar gyfer cyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys tua 5 ha ar gyfer defnyddiau B1 a 9 ha ar gyfer defnyddiau B2/B8, ac mae'n cynrychioli'r gofyniad lleiaf ar sail defnydd hanesyddol ynghyd â 'chlustog hyblygrwydd' o 5 mlynedd. Ymddengys bod y casgliadau hyn yn rhesymol a'u bod yn darparu sail gadarn ar gyfer asesiad manylach o addasrwydd safleoedd posibl i fodloni anghenion dynodedig⁹³.
- 7.3. Mae polisi EcW1 y Cynllun, 'Darpariaeth Tir ar gyfer Cyflogaeth', yn dyrannu pedwar safle ar gyfer defnyddiau cyflogaeth: safle EcW1.1 (maes parcio Ffatri Hoover), safle EcW1.2 (Goatmill Road), safle EcW1.3 (Ffos-y-frân) a safle EcW1.4 (Tir i'r de o Ystâd Ddiwydiannol Merthyr Tudful). Er bod dyrannu'r safleoedd hynny yn cydsynio â chasgliadau'r Adolygiad Tir Cyflogaeth, gyda'i gilydd maent yn cynrychioli gorgyflenwad meintiol sylweddol o dir cyflogaeth, sydd 52% yn uwch na'r angen dynodedig.
- 7.4. Mae polisi cenedlaethol yn crybwyll, lle mae safleoedd yn cael eu tanddefnyddio neu'n tanberfformio, rhaid ystyried eu dad-ddyrannu neu eu dyrannu ar gyfer defnyddiau eraill drwy broses y cynllun datblygu⁹⁴. Mae safleoedd EcW1.1 ac EcW1.2, a rhan o safle EcW1.3 eisoes wedi'u dyrannu ar gyfer defnyddiau cyflogaeth yn y CDLI mabwysiedig. Nid oes unrhyw un ohonynt wedi'i ddatblygu'n unol â'r amserlenni a ragwelwyd yn y CDLI presennol.
- 7.5. Mae safle EcW1.1 o fewn Ardal Adfywio Strategol Hoover. Byddai ei ddyraniad ar gyfer 1.5 ha o dir cyflogaeth yn cefnogi strategaeth y Cynllun yn gadarnhaol drwy ategu ailddatblygiad defnydd cymysg y safle cyfagos. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod ganddo ragolygon rhesymol o gael ei gyflawni yn ystod cyfnod y Cynllun. Felly, gellir cyfiawnhau dyraniad y safle hwn ar gyfer defnyddiau cyflogaeth.
- 7.6. Mae safleoedd EcW1.2 ac EcW1.3 y naill ochr a'r llall i'r A4060 tuag at ymyl ddwyreiniol yr anheddiad. Gyda'i gilydd, maent yn llenwi tua 26 ha o dir. Cadarnhodd y Cyngor yn ystod yr archwiliad y disgwylir i safle EcW1.2 gael ei

⁹² Adolygiad Tir Cyflogaeth, Mehefin 2018 [SD35]

⁹³ Tabl 31 o'r Adolygiad Tir Cyflogaeth, Mehefin 2018 [SD35]

⁹⁴ PCC Argraffiad 10 paragraff 4.2.17

werthu⁹⁵ i ddefnyddiwr y crybwyllir yn yr Adolygiad Tir Cyflogaeth y bydd yn debygol o gymryd mwyafrif y safle ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff⁹⁶. O ystyried y disgwylir i'r cynigion aeddfedu'n gymharol fuan, mae ei ddyrannu at gyfer defnyddiau cyflogaeth yn y Cynllun yn briodol.

- 7.7. Mae safle EcW1.3 yn ffurfio rhan o Gynllun Adfer Tir Ffos-y-Frân ac mae angen ei adfer erbyn 2024 dan un o amodau'r caniatâd cynllunio presennol. Mae'r dyraniad arfaethedig yn llenwi ardal fwy na'r dyraniad tir cyfwerth a gynhwyswyd yn y CDLI mabwysiedig, ac mae hefyd yn ymestyn y tu hwnt i'r ffiniau anheddiad dynodedig presennol. Serch hynny, mewn termau ffisegol, byddai'r estyniad arfaethedig i'r safle yn rhesymegol, gan y byddai'n llenwi llain gydlynol o dir sydd wedi'i ffurfio gan ffin ogleddol y dyraniad presennol a'r A4060. Ni fyddai agosrwydd y safle at ardaloedd diwydiannol presennol a'i wahaniad oddi wrth ddefnyddiau preswyl a chymunedol eraill yn addas ar gyfer tai. I'r gwrthwyneb, byddai ei leoliad yn gyfagos at gefnffordd bwysig yn addas ar gyfer defnydd sy'n mynnu mynediad uniongyrchol at rwydwaith y priffyrdd.
- 7.8. Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn cydnabod y gallai darparu gwasanaethau a seilwaith ar y safle arwain at faterion yn ymwneud â chyflawnadwyedd ar gyfer safle EcW1.3, o ran cyflawni mynediad o'r A4060 uwchlaw popeth. Serch hynny, mae'r astudiaeth yn argymhell y dylid dyrannu'r safle cyfan i gefnogi ei ddatblygu'n hyfyw. Mae'r Cyngor yn honni y gallai datblygu dechrau yn ystod cyfnod y Cynllun⁹⁷. Nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno â hynny.
- 7.9. Mae PCC yn glir bod rhaid i dir a ddatblygwyd o'r blaen neu dir sy'n cael ei danddefnyddio gael ei ddefnyddio yn hytrach na safleoedd tir glas, lle bynnag y bo modd⁹⁸. Mae safle EcW1.3 wedi'i ddosbarthu'n safle tir glas⁹⁹. Fodd bynnag, mae gan y fwrdeistref sirol y gyfradd ddiweithdra uchaf ym Mhrifddinas Ranbarth Caerdydd, ac mae'n gartref i 8 o'r 10 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is fwyaf difreintiedig yng Nghymru¹⁰⁰. Er bod cyfleusterau rheoli gwastraff yn disgyn o fewn dosbarth defnydd B2 neu B8, fel arfer, goblygiad y fargen ddisgwyliedig ar gyfer y tir ar Goatmill Road yw y byddai gweithgarwch diwydiannol cyffredinol neu warysau wedi'u heithrio ar lawer o safle EcW1.2. Yn gyson â TAN 21 'Gwastraff'¹⁰¹, nid yw'r Adolygiad Tir Cyflogaeth wedi mesur faint o dir y byddai ei angen yn benodol ar gyfer rheoli gwastraff. O ganlyniad, mae'r dystiolaeth yn dangos mai safle EcW1.3 yw'r unig safle cyflogaeth cyflawnadwy ar raddfa fawr yn y fwrdeistref sirol a fyddai'n gallu cefnogi ystod eang o anghenion ar gyfer gweithgarwch diwydiannol cyffredinol neu warysau. Byddai ei ddatblygu ar gyfer gweithgarwch tebyg yn gwneud cyfraniad hanfodol i'r Canlyniad Cenedlaethol Creu Lleodedd Cynaliadwy i feithrin gweithgarwch economaidd ym Merthyr Tudful.
- 7.10. Am y rhesymau hyn, rwyf o'r farn bod amgylchiadau unigol yr achos yn cyfiawnhau dyrannu safle EcW1.3, ac y byddai'n cydsynio ag argymhelliad yr Adolygiad Tir Cyflogaeth i ddyrannu safleoedd yn ôl ffactorau ansoddol, fel

⁹⁵ Ymateb y Cyngor i Bwynt Gweithredu 5.6 [ED045]

⁹⁶ Tabl 31 yr Adolygiad Tir Cyflogaeth, Mehefin 2018 [SD35]

⁹⁷ Ymateb y Cyngor i Bwynt Gweithredu 5.6 [ED045]

⁹⁸ PCC Argraffiad 10 paragraffau 3.40 a 3.51

⁹⁹ PCC Argraffiad 10 'Diffiniad o Dir a Ddatblygwyd o'r Blaen', tudalen 38

¹⁰⁰ Paragraffau 3.9 i 3.11 yr Adolygiad Tir Cyflogaeth [SD35]

¹⁰¹ Paragraff 3.21 TAN 21 'Gwastraff'

argaeledd safleoedd mawr, yr angen i ddarparu amrediad a dewis, a sicrhau amcanion adfywio¹⁰².

- 7.11. Mae safle EcW1.4 yn cynrychioli dyraniad 'newydd'. Byddai darparu 1.3ha o dir cyflogaeth yn y lleoliad hwn yn cydymffurfio â strategaeth y Cynllun, a hwn fyddai'r unig ddyraniad cyflogaeth wedi'i leoli yn yr 'Ardal Dwf Arall'. Er ei fod yn gae chwarae ar hyn o bryd, mae'r safle wedi'i leoli mewn ward lle ceir darpariaeth dros ben o gaeau chwaraeon o gymharu â safon meintiau Meysydd Chwarae Cymru¹⁰³. Felly, gellir cyfiawnhau ei golli'n unol â pholisi cenedlaethol¹⁰⁴.
- 7.12. Mae Atodiad 1 o'r Cynllun yn ategu polisi EcW1 drwy bennu gofynion sy'n benodol i'r safle ar gyfer dyraniadau cyflogaeth. Er bod y manylion yn ymwneud â phob dyraniad yn briodol yn gyffredinol, mae'r polisi a'r atodiad yn nodi bod pob safle wedi'u dyrannu ar gyfer yr ystod lawn o ddefnyddiau dosbarth B, gan gynnwys defnyddiau swyddfa (B1(a)). Mae hyn er gwaethaf asesiad y Cyngor o safleoedd amgen, a ganfu fod dau safle arall yn ddewisach o'r bron.
- 7.13. Mae un o'r safleoedd amgen hyn (Tir i'r De o Faes Parcio'r Coleg) wedi'i leoli'n rhannol o fewn ffin canol y dref¹⁰⁵. Gan y gallai hyfywedd gyfyngu ar y mathau o ddefnyddiau a ddarperir, roedd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth yn argymhell na ddylid ei ddyrannu ar gyfer defnyddiau cyflogaeth¹⁰⁶. Serch hynny, mae ei leoliad yng nghanol y dref yn golygu, o ran polisi cenedlaethol a strategaeth y Cynllun, ei fod yn cynrychioli safle dewisach posibl ar gyfer defnyddiau swyddfa nag unrhyw un o'r dyraniadau cyflogaeth dynodedig, y mae pob un ohonynt y tu allan i ganolfannau dynodedig. O ganlyniad, dylid diwygio polisi EcW1 ac Atodiad 1 i wahardd defnyddiau B1(a) o'r rhestr o ddefnyddiau a ddyrennir ar y pedwar safle hwn (**MAC33.1** a **MAC70**).
- 7.14. Byddai ychwanegu rhestr seilwaith at y Cynllun yn darparu eglurder angenrheidiol i ymgeiswyr o ran gofynion seilwaith posibl a chostau datblygu ar gyfer y dyraniadau cyflogaeth (**MAC73**). Fodd bynnag, mae'r cyfeiriad at yr angen i ddatblygwyr ddarparu seilwaith fel rhan o ddatblygiad 'tai' ar gyfer safleoedd EcW1.1, EcW1.2 ac EcW1.3 yn Nhabl A6.2 yn anghyson â pholisi EcW1. Nid wyf yn cefnogi defnydd y gair 'tai' yn y tabl hwn, felly dylid ei eithrio o'r rhestr seilwaith yn y Cynllun cyhoeddedig terfynol.
- 7.15. Yn amodol ar y newidiadau uchod, dof i'r casgliad, er gwaethaf yr orddarpariaeth o dir cyflogaeth o gymharu â'r angen dynodedig, bod y pedwar safle cyflogaeth a ddyrennir yn briodol a chânt eu cyfiawnhau gan y dystiolaeth. Byddant yn ategu'r gwaith o weithredu strategaeth y Cynllun, maent yn gyson â pholisi cenedlaethol, a byddant yn galluogi bodloni'r gofyniad lleiaf dynodedig ar gyfer tir cyflogaeth. Fodd bynnag, dylid diwygio dangosydd monitro 12.1 i olrhain cwblhau arwynebedd llawr ar gyfer cyflogaeth, gan alluogi'r Cyngor i ganfod p'un a yw'r dyraniadau'n cael eu hadeiladu'n unol â disgwyliadau'r Cynllun (**MAC59**).

¹⁰² Argymhellion 1 a 5 yr Adolygiad Tir Cyflogaeth [SD35]

¹⁰³ Paragraffau 2.44 i 2.48 o'r Strategaeth Mannau Agored [SD47]

¹⁰⁴ PCC Argraffiad 10, paragraff 4.5.4

¹⁰⁵ Datganiad Ysgrifenedig y Cyngor ar gyfer Gwrandawriad 5; Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol [SD18]

¹⁰⁶ Tabl ES4, Adolygiad Tir Cyflogaeth [SD35]

Diogelu tir ac adeiladau cyflogaeth

- 7.16. Mae polisi EcW2 'Diogelu Safleoedd Cyflogaeth' yn diogelu tir sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyflogaeth neu sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer y defnyddiau hynny. Yn gyffredinol, mae'r meini prawf sy'n berthnasol i ardaloedd a safleoedd cyflogaeth presennol yn gadarn, ond mae'r cyfeiriad at ddefnydd presennol 'amhriodol' yn amwys a dylid ei ddisgrifio yn y cyfiawnhad rhesymegol (**MAC34**).
- 7.17. Mae'r ardaloedd y mae polisi EcW2 yn berthnasol iddynt wedi'u dynodi ar y Map Cynigion. Nodwyd y rhain yn unol ag argymhellion yr Adolygiad Tir Cyflogaeth. Fodd bynnag, gan eu bod yn disgyn y tu allan i'r hierarchaeth ddynodedig o ganolfannau manwerthu a masnachol, dylid diwygio'r polisi a'i gyfiawnhad rhesymegol i eithrio defnyddiau dosbarth B1(a) o'r rhestr o ddefnyddiau a ganiateir yn y lleoliadau hyn, ac egluro y dylai cynigion ar gyfer swyddfeydd y tu allan i ganolfannau gael eu cefnogi gan asesiad dilyniannol (**MAC33.2**). Byddai newid cyfatebol i ddangosydd monitro 14.3 yn cefnogi adolygiad o bolisi neu Gynllun pe byddai unrhyw gais am ddatblygiad swyddfa mawr yn cael ei gymeradwyo'n groes i bolisi EcW1 neu EcW2 (**MAC61**), gan sicrhau effeithiolrwydd y ddau bolisi hyn.
- 7.18. Mae polisi EcW2 yn cymhwyso eithriad i Barc Busnes Rhyd-y-car, lle y byddai defnyddiau dosbarth B1 neu gyfleusterau ategol yn unig yn cael eu caniatáu. Gan fod hwn yn barc swyddfa sefydledig â chyfleoedd cyfyngedig i'w ymestyn yn y dyfodol¹⁰⁷, mae'n briodol i'r polisi gydnabod bod yr ardal gyflogaeth hon yn eithriad i'r arfer. Fodd bynnag, dylid cryfhau cyfiawnhad rhesymegol y polisi hwn i gyfiawnhau hyn, gan gyfeirio at ei swyddogaeth fel parc busnes sefydledig (**MAC33.2**).

Hierarchaeth canolfannau manwerthu a masnachol

- 7.19. Mae polisi EcW3 'Hierarchaeth Fanwerthu – Cefnogi Darpariaeth Fanwerthu' yn diffinio hierarchaeth o ganolfannau manwerthu a masnachol, sydd â chanol tref Merthyr Tudful ar frig yr hierarchaeth, wedi'i ddilyn gan saith canolfan leol bresennol a chanolfan leol arfaethedig newydd yn Ardal Adfywio Strategol Hoover. Dywed y polisi y bydd cynigion y tu allan i'r ardaloedd dynodedig hyn yn destun asesiad o angen ac y caiff y prawf dilyniannol ei gymhwyso'n llym. Mae'r dull hwn a'r hierarchaeth ei hun yn cydymffurfio â sylwedd polisi cenedlaethol¹⁰⁸, yr Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol (RCLS) ategol¹⁰⁹ ac amcan y Cynllun i ddatblygu'r dref a chanolfannau lleol fel mannau hygyrch, deniadol, hyfyw a bywiog. Mae ffiniau'r dref a'r canolfannau lleol presennol wedi'u dynodi ar y Map Cynigion ac maent yn cydymffurfio ag argymhellion yr Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol.
- 7.20. Er hynny, gan fod polisi EcW3 yn berthnasol i ddatblygiadau manwerthu yn unig, nid yw'n cynnwys defnyddiau nad ydynt yn fanwerthu y mae polisi cenedlaethol yn crybwyll y dylid eu cyfeirio at ganolfannau dynodedig hefyd¹¹⁰.

¹⁰⁷ Tabl ES4, Adolygiad Tir Cyflogaeth [SD35]

¹⁰⁸ PCC Argraffiad 10 adran 4.3; TAN 4 'Datblygiad Manwerthol a Masnachol'

¹⁰⁹ Adroddiad Terfynol Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol Merthyr Tudful, Mehefin 2017 [SD30]

¹¹⁰ PCC Argraffiad 10 paragraff 4.3.21

Byddai **MAC35** yn diwygio'r polisi i gyfeirio at hamdden a defnyddiau ategol eraill, ynghyd â datblygiad manwerthu, gan alinio â pholisi cenedlaethol.

- 7.21. Mae'r fwrdeistref sirol yn gartref i bedwar parc manwerthu presennol. Fel yr argymhelli yn yr Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol, nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn yr hierarchaeth ddynodedig¹¹¹. Mewn amrywiol leoedd yn y Cynllun, cyfeirir at ddau o'r parciau manwerthu hyn (Parc Manwerthu Cyfarthfa a Trago) fel lleoliadau 'ar ffiniau canol y dref'. Er fy mod yn derbyn bod Parc Manwerthu Cyfarthfa, yn benodol, yn agos at ganol y dref, ni ellid disgrifio'n rhesymol bod y naill leoliad na'r llall 'ar ffiniau canol y dref', gan nad ydynt yn gyfagos at ganol y dref nac yn hawdd eu cyrraedd drwy gerdded o ganol y dref. Nid oes unrhyw dystiolaeth arall, boed yn economaidd neu'n dystiolaeth arall, yn goresgyn y ffaith honno. O ganlyniad, dylid dileu unrhyw gyfeiriad at y naill barc manwerthu neu'r llall 'ar ffiniau canol y dref' o'r Cynllun. (**MAC3 a MAC36**).
- 7.22. Mae polisi EcW6 'Ardaloedd Manwerthu y tu allan i'r Dref' yn pennu meini prawf ar gyfer asesu cynigion yn y parciau manwerthu hyn. Fel y'i cyflwynwyd, nid oedd cyfiawnhad rhesymegol y polisi yn glir ynghylch sut byddai'r prawf dilyniannol yn cael ei gymhwyso ar gyfer siopau sy'n gwerthu nwyddau swmpus neu sydd angen ystafelloedd arddangos. Byddai **MAC39** yn unioni hyn ac yn sicrhau y caiff y polisi ei gymhwyso'n effeithiol yn gyson â pholisi cenedlaethol¹¹².
- 7.23. Fel yr argymhellir gan yr Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol¹¹³, mae 'Prif Ardal Siopa' ar gyfer canol y dref wedi'i dynodi ar y Map Cynigion. Mae polisi EcW5 'Datblygiad y Dref a Chanol Lleol y Dref' yn pennu meini prawf ar gyfer rheoli newidiadau defnydd yn yr ardal hon ac mewn canolfannau lleol dynodedig. Er bod y meini prawf ar gyfer asesu cynigion i newid rhwng defnyddiau dosbarth A yn briodol ac yn effeithiol, mae'r rhai ar gyfer asesu newidiadau i ddefnyddiau nad ydynt yn rhai dosbarth A yn peri dryswch. Hefyd, ni fyddai'r polisi'n amddiffyn busnesau presennol yn unol â'r 'egwyddor asiant dros newid' a bennir mewn polisi cenedlaethol¹¹⁴. Felly, dylid diwygio polisi EcW5 a'i gyfiawnhad rhesymegol i fynd i'r afael â'r diffygion hyn (**MAC38.1 a MAC38.2**). Yn ogystal, dylid newid dangosydd monitro 14.7 i gyfeirio at ddatblygiadau nad ydynt yn rhai manwerthu (**MAC62**), a fydd yn galluogi polisi EcW5 i gael ei fonitro'n gywir ac felly ei roi ar waith yn effeithiol.

Cyflenwad tir ar gyfer manwerthu

- 7.24. Mae'r Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol yn asesu'r angen am ystod o ddefnyddiau manwerthu a hamdden masnachol yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r fethodoleg yn gyson â'r dull sy'n cael ei hyrwyddo yn PCC a TAN 4 'Datblygiad Manwerthol a Masnachol'. Mae'r astudiaeth yn canfod angen meintiol cyfyngedig ar gyfer nwyddau cyfleus newydd yn ystod cyfnod y Cynllun, ac nid yw'n cangod unrhyw ardaloedd amlwg o ddifffyg ansoddol o ran darpariaeth bwyd. Ar gyfer nwyddau cymhariaeth, mae'n rhagweld y bydd allfa Trago yn creu diffyg o ran gwariant hyd at 2026, a bydd gwarged gymedrol o

¹¹¹ Paragraff 5.23 yr Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol [SD30]

¹¹² PCC Argraffiad 10 paragraff 4.3.23

¹¹³ Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol 2017 [SD30] paragraff 5.35

¹¹⁴ PCC Argraffiad 10 paragraff 4.3.44 a Phennod 6

ran gwariant wedi hynny a all gefnogi 2,802 metr sgwâr o arwynebedd llawr net erbyn 2031¹¹⁵.

- 7.25. Dywed yr Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol, yng nghanol y dref, y gallai safle'r orsaf fysiau ganolog ac unedau gwag fodloni'r twf rhagamcanol hwn. Fodd bynnag, mae cyflawnadwyedd safle'r orsaf fysiau ar gyfer defnyddiau manwerthu yn ymddangos yn amheus, yn bennaf oherwydd bod rhan ohono'n sefyll o fewn parth llifogydd C2¹¹⁶. Yn ogystal, mae'r Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol yn nodi bod unedau gwag yn debygol o fod yn unedau bach nad yw manwerthwyr cenedlaethol yn debygol o fasnachu ohonynt. Fodd bynnag, mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth yn nodi potensial safle 'Tir i'r De o Faes Parcio'r Coleg' ar gyfer arwynebedd llawr manwerthu A1 neu ddefnyddiau ategol eraill. Er bod hanner y safle y tu allan i ffin canol y dref, byddai rhan sylweddol o'r tir sy'n weddill yng nghanol y dref ac mae'n gymharol ddigyfngiad. Er nad yw wedi'i ddyrannu, mae'r safle hwn ar ei ben ei hun yn dangos potensial canol y dref i fodloni anghenion manwerthu cymhariaeth sy'n weddill.
- 7.26. Er y daw'r Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol i'r casgliad nad oes angen unrhyw ddyraniadau manwerthu, canfu bod cwmpas ar gyfer canolfan leol fechan yn Ardal Adfywio Strategol Hoover i fodloni anghenion y gymuned breswyl newydd o ran nwyddau cyfleus, cymhariaeth, a bwyd a diod o ddydd i ddydd. Felly, mae polisi EcW4 'Dyraniad Manwerthu' yn dyrannu tir yn Ardal Adfywio Strategol Hoover ar gyfer 409 metr sgwâr o fanwerthu cyfleus lleol.
- 7.27. Mae'r arwynebedd llawr dynodedig yn fwy na'r hyn ag argymhellir yn yr Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol, sy'n amlygu cwmpas ar gyfer oddeutu 321 metr sgwâr o arwynebedd llawr crynswth ar draws Ardal Adfywio Strategol Hoover. Ar ben hynny, roedd y ffigur hwnnw wedi'i seilio ar angen lleol a gynhyrchwyd gan nifer fwy o anheddau na'r hyn a ddyrennir yn y Cynllun yn Ardal Adfywio Strategol Hoover. Fodd bynnag, yn ymarferol, ni fyddai lleihau'r maint ymhellach yn darparu unedau o faint na mäs critigol digonol i gynnal canolfan leol fechan. Byddai hyn yn groes i'r amcanion o sicrhau canolfan leol yn Ardal Adfywio Strategol Hoover yn y lle cyntaf. Yn ogystal, mae'r arwynebedd llawr arfaethedig yn gymedrol a byddai'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar ganolfannau presennol eraill yn yr hierarchaeth.
- 7.28. Felly, gellir cyfiawnhau'r dyraniad arfaethedig, a byddai'n cydymffurfio ag Amcanion Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy yn ymwneud â darparu cymysgedd o ddefnyddiau, gan leihau'r angen i deithio a sicrhau cyfleusterau a gwasanaethau yn y gymuned. Fodd bynnag, gan fod y maint disgwyledig yn ffigur eang i'w fireinio yn y cais cynllunio, dylid ei dalgrynnu i 400 metr sgwâr ym mholisi EcW4 (**MAC37**) a pholisi SW6 'Ardal Adfywio Strategol Hoover' (**MAC9**). Yn gyson â chanfyddiadau'r Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol, dylid dileu'r cyfeiriad ym mholisi EcW4 ar fanwerthu cyfleus ac egluro'r rhesymau am y dyraniad yn y cyfiawnhad rhesymegol (**MAC37**).
- 7.29. Yn amodol ar y newidiadau uchod, rwyf o'r farn bod yr hierarchaeth fanwerthu, dyraniadau'r Map Cynigion a'r dyraniad manwerthu yn briodol ac yn gyflawnadwy. Yn ogystal, byddant yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol ac yn

¹¹⁵ Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol 2017 [SD30] paragraffau 6.6 a 6.10

¹¹⁶ Asesiad Canlyniad Llifogydd Strategol, Mehefin 2018 [SD37]

ategu amcan y Cynllun i roi blaenoriaeth i adfeddiannu unedau masnachol gwag mewn canolfannau dynodedig.

Twristiaeth a hamdden

- 7.30. Mae polisi EcW7 yn cefnogi datblygu twristiaeth a hamdden o fewn ffiniau anheddiad, yn enwedig lle y byddai'n helpu i adnewyddu ac adfywio'r dref a chanolfannau lleol. O ystyried yr ystod eang o ddefnyddiau a all disgyn o fewn cwrmpas y polisi hwn, gan gynnwys defnyddiau canol tref fel gwestai (dosbarth defnydd C1) a hamdden (dosbarth defnydd D2), mae'r dull a ddefnyddir yn y polisi yn briodol.
- 7.31. Roedd yr Astudiaeth Manwerthu a Hamdden Masnachol yn asesu darpariaeth defnyddiau hamdden masnachol yn y fwrdeistref sirol, a chanfu gallu neu gwmpas posibl ar gyfer cyfleusterau penodol, gan gynnwys sinema â 3 i 3 sgrin. Mae'r Cynllun hefyd wedi'i lywio gan Gynllun Rheoli Cyrchfannau'r Cyngor¹¹⁷, sy'n asesu arlwy twristiaeth y fwrdeistref sirol ac yn amlygu cyfleoedd posibl i dyfu. Ymhlith pethau eraill, mae'r ddogfen hon yn nodi, er gwaethaf rhai cryfderau unigryw, gan gynnwys atyniadau twristiaeth diwylliannol a gweithgarwch, nid oes unrhyw westai mawr o ansawdd uchel yn yr ardal leol, a cheir ychydig iawn o atyniadau dan do ar raddfa fawr.
- 7.32. Trwy gynnig cymorth i ddatblygu twristiaeth o fewn ffiniau anheddiad, byddai polisi EcW7 yn helpu i fynd i'r afael â'r gwendidau ac yn manteisio ar y cyfleoedd a amlygwyd yn y Cynllun Rheoli Cyrchfannau. Byddai'n cael ei helpu yn y rôl hon gan bolisi CW2, sy'n cefnogi datblygiad atyniad ymwelwyr yn seiliedig ar dreftadaeth yn benodol, i ategu'r hyn sy'n cael ei gynnig yng Nghastell a Pharc Cyfarthfa; sef ffocws penodol yn y Cynllun Rheoli Cyrchfannau.
- 7.33. Y tu allan i ffiniau anheddiad, mae polisi EcW7 yn rhoi cefnogaeth ffafriol i ddatblygiadau twristiaeth a hamdden 'isel eu heffaith', yn amodol ar fodloni gofynion penodol. Byddai hyn yn gyson â'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau hefyd, sy'n nodi'r potensial i dyfu twristiaeth awyr agored mewn rhannau gwledig o'r fwrdeistref sirol.
- 7.34. Afraid dweud bod gwarchod nodweddion gwledig ardaloedd cefn gwlad yn rhan bwysig o gynnal a chefnogi twristiaeth wledig. Mae polisi cenedlaethol yn adlewyrchu hynny drwy ddatgan y dylai datblygiadau yn gysylltiedig â thwristiaeth mewn ardaloedd gwledig fod yn ystyriol o'r amgylchedd lleol o ran eu natur a maint¹¹⁸. Mae ffafrio datblygiadau 'isel eu heffaith' yn gysylltiedig â thwristiaeth, sy'n lleihau effeithiau amgylcheddol ac sydd o faint priodol ar gyfer eu cwrmpasoedd, fel mae polisi EcW7 yn ei wneud, yn gyson â hyn. Fodd bynnag, gan fod y Cynllun yn cynnwys amcanion i gryfhau ac amrywio'r economi wledig a chefnogi twristiaeth gynaliadwy, dylai'r polisi geisio sicrhau bod unrhyw gynigion tebyg yn mwyhau'r effeithiau cadarnhaol ar y gymuned, yr economi a'r amgylchedd lleol hefyd, a lleihau'r effaith ar amwynderau (**MAC40**).

¹¹⁷ Cynllun Rheoli Cyrchfannau 2016-2018 [ED020]

¹¹⁸ PCC Argraffiad 10 paragraff 5.5.3

- 7.35. Byddai cynigion twristiaeth yng nghefn gwlad yn ddarostyngedig i bolisi SW4 'Ffiniau Anheddiad' hefyd. Fel yr amlinellir ym mharagraff 3.6 yr adroddiad hwn, byddai **MAC6** yn diwygio polisi SW4 i gydnabod yr angen i unrhyw gyfleuster twristiaeth neu hamdden, neu ddatblygiad ategol yng nghefn gwlad, gael ei gyfiawnhau'n llawn. Byddai'r polisi hwn yn gymwys p'un a dybir bod cynnig twristiaeth yn disgyn o fewn y diffiniad o ddatblygiad 'isel ei effaith' neu beidio. Byddai **MAC7** a **MAC8** yn diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol i bolisi SW4 i egluro hyn a chael gwared ar unrhyw amwysedd ynghylch y mathau o ddefnydd a all disgyn o fewn ei gwmpas, gan gynnwys defnyddiau ategol fel llety a mynediad i ymwelwyr. Byddai newid tebyg i'r cyfiawnhad rhesymegol i bolisi EcW7 (**MAC41**) yn sicrhau y byddai'r ddau bolisi'n darparu fframwaith addas i gefnogi datblygiadau twristiaeth ategol priodol.
- 7.36. Yn amodol ar y newidiadau a grybwyllir uchod, rwyf o'r farn y byddai polisïau EcW7, SW4 a CW2 yn darparu sail briodol i asesu cynigion ar gyfer datblygiadau twristiaeth a hamdden, ac y byddant yn cydymffurfio â nodau paragraffau 5.5.1 i 5.5.6 PCC.

Casgliad

- 7.37. Yn amodol ar y newidiadau a amlygwyd, dof i'r casgliad bod sail gadarn i strategaeth a pholisïau'r Cynllun ar gyfer cyflogaeth, manwerthu, hamdden a thwristiaeth.

8 Ynni, mwynau a gwastraff

Ynni adnewyddadwy a rhwydweithiau cynhesu'r ardal

- 8.1. Mae'r Cynllun wedi'i lywio gan Asesiad Ynni Adnewyddadwy (REA)¹¹⁹ sy'n asesu'r potensial i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn y fwrdeistref sirol. Mae'r fethodoleg sy'n sawl i'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn adlewyrchu'r dull sy'n cael ei hyrwyddo yn 'Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel – Pecyn ar gyfer Cynllunwyr' ('y Pecyn'), a gyhoeddwyd yn 2015.
- 8.2. Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn amlygu 16 rhan o'r fwrdeistref sirol sydd â'r potensial ar gyfer naill ai tyrbinau gwynt ar raddfa ganolig neu fawr, a 3 ardal sydd â'r potensial ar gyfer sefydlu rhwydweithiau cynhesu'r ardal. Fel y ceisir gan y Pecyn¹²⁰, mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy hefyd yn amlygu ardaloedd sydd â'r potensial ar gyfer araeau solar o fewn llwybr economaidd hyfyr i'r grid trydan. Yn hanesyddol, mae'r rhan fwyaf o gynigion ar gyfer ffermydd solar uwchlaw 1MW yn ne Cymru wedi'u lleoli o fewn 2 gilomedr o'r grid, ond wrth i ddulliau cyflawni a thechnolegau newydd wella hyfywedd¹²¹, mae'n bosibl y gellid datblygu cynigion ymhellach o'r grid yn y dyfodol. Serch hynny, nid yw defnyddio pellter o 2 gilomedr o'r grid yn briodol yn yr achos hwn, gan y byddai cysylltiad pellach o 10 cilomedr oddi wrth y grid yn arwain at ganlyniadau tebyg¹²².
- 8.3. Er bod yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn darparu sail gadarn i lywio'r Cynllun, nid yw'n ddigon ar ei ben ei hun i sefydlu ffiniau manwl i ddynodi lleoliadau priodol ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy, fel y ceisir gan bolisi cenedlaethol¹²³. Felly, mae'r Cyngor wedi cynnal astudiaeth pellach i fireinio allbynnau'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy o ran effeithiau posibl ar olygfeydd a'r dirwedd¹²⁴. Mae hyn, yn ei dro, yn defnyddio astudiaeth sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd a baratowyd yn 2015, sy'n asesu'r potensial i leoli tyrbinau gwynt llai yn y fwrdeistref sirol ac awdurdodau cyfagos¹²⁵.
- 8.4. Daw'r astudiaeth bellach i'r casgliad, er y gallai tyrbinau unigol fod yn dderbyniol, mae sensitifrwydd tirweddau'r fwrdeistref sirol yn golygu na ddylid amlygu unrhyw leoedd yn benodol ar gyfer tyrbinau gwynt yn y Cynllun. Fodd bynnag, mae'n argymhell y dylid dynodi 3 ardal yn 'Ardaloedd Chwilio Lleol' ar gyfer ffermydd solar. Er mai dim ond arfarniad lefel uchel ydyw, mae'r astudiaeth yn darparu sail gredadwy i bennu ffiniau priodol ar gyfer Ardaloedd Chwilio Lleol ar sail ffactorau yn benodol i'r safle sy'n ymwneud â'r dirwedd a golygfeydd, ac mae'n gyson â'r cyngor a roddir yn y Pecyn¹²⁶.

¹¹⁹ Asesiad Ynni Adnewyddadwy, 2017 [SD21]

¹²⁰ Pecyn LIC, E1.7

¹²¹ Asesiad Ynni Adnewyddadwy, adrannau 2.3.2 a 21.2.8

¹²² Datganiad Ysgrifenedig y Cyngor ar gyfer Gwrandawriad 8

¹²³ PCC Argraffiad 10 paragraff 5.9.8

¹²⁴ Adendwm i'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy, 2018 [SD22]

¹²⁵ Astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd Datblygu Tirwedd Tyrbinau Gwynt Graddfa Lai Blaenau'r Cymoedd 2015 [SD23]

¹²⁶ Taflenni Proiect B a K Pecyn LIC

- 8.5. Mae darpariaethau polisi EcW8 'Ynni Adnewyddadwy' a pholisi EcW9 'Cynhesu'r Ardal' yn cydsynio â thystiolaeth a pholisi cenedlaethol¹²⁷. Mae'r Ardaloedd Chwilio Lleol ar gyfer ffermydd solar a'r ardaloedd â blaenoriaeth ar gyfer rhwydweithiau cynhesu'r ardal wedi'u dynodi'n briodol ar y Map Cynigion. Mae'r cyfiawnhad rhesymegol ar gyfer y ddau bolisi'n amlygu potensial y fwrdeistref sirol ar gyfer cynlluniau trydan a gwres adnewyddadwy, eu cyfraniad posibl at dargedau cenedlaethol, a chapasiti ac allbwn posibl yr Ardaloedd Chwilio Lleol ar gyfer ffermydd solar. Mae'r wybodaeth hon yn gyson â'r dystiolaeth a byddai ei chynnwys yn y Cynllun yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol¹²⁸.
- 8.6. Er yr uchod, dylid croesgyfeirio polisiau SW11 'Cynllunio a Chreu Lleoedd Cynaliadwy' ac EnW4 'Diogelu'r Amgylchedd' o'r cyfiawnhad rhesymegol i bolisi EcW8 er mwyn egluro sut byddai'r effeithiau posibl ar amwynder preswyl, sŵn ac arogl yn gysylltiedig â chynigion ynni adnewyddadwy yn cael eu hasesu (**MAC42**). Yn ogystal, dylai'r cyfiawnhad rhesymegol i bolisi EnW9 grybwyll y dylid ystyried hyfywedd ac ystyriaethau technegol mewn strategaethau ynni sy'n cyd-fynd â cheisiadau cynllunio (**MAC43**). Yn amodol ar y newidiadau hyn, rwy'n fodlon y byddai'r Cynllun yn darparu sail gadarn ar gyfer asesu a sicrhau cynigion ar gyfer ynni adnewyddadwy a rhwydweithiau cynhesu'r ardal.

Mwynau

- 8.7. Mae'r Papur Cefndir Cynllunio Mwynau¹²⁹ a'r Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin Arfarnu Cynaliadwyedd¹³⁰ yn asesu arwyddocâd, angen a chyflenwad gwaith mwynau yn y fwrdeistref sirol. Mae'r dogfennau hyn yn defnyddio'r argymhellion o Adolygiad Cyntaf Datganiad Technegol Rhanbarthol Gweithgor Agregiadau Rhanbarthol De Cymru 2014¹³¹ ('Datganiad Technegol Rhanbarthol'), sydd â dyddiad sylfaen o 2010 ac sy'n nodi dosraniad o sero o dunelli o dywod a graean a 20.5 tonnell fetrig o graig wedi malu i'r fwrdeistref sirol rhwng 2011 a 2036.
- 8.8. Ar oddeutu 94m o dunelli, mae'r banc tir ar gyfer craig wedi malu y cyfrifwyd amdano gan ganiatâd cynllunio presennol ymhell y tu hwnt i ddosraniad Datganiad Technegol Rhanbarthol presennol y fwrdeistref sirol. Serch hynny, mae paragraff 5.14.14 PCC yn glir y dylid archwilio banciau tir ar gyfer agregau er mwyn amlygu unrhyw ddiffygion a sicrhau bod capasiti cynhyrchu yn cael ei gynnal. Mae'r Papur Cefndir Cynllunio Mwynau yn crynhoi'r sefyllfa drwy gyfeirio at chwareli calchfaen a thywodfaen lleol. Er bod yr unig chwarel galchfaen yn y fwrdeistref sirol yn anweithredol ar hyn o bryd, mae'r dystiolaeth yn dangos mai dim ond yn ddiweddar y mae wedi rhoi'r gorau i gynhyrchu, ac mae echdynnu'n debygol o ailddechrau yn ystod cyfnod y Cynllun. O ganlyniad, mae'n briodol cynnwys cronfeydd wrth gefn a ganiateir o fewn y banc tir dynodedig.
- 8.9. Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn nodi nad yw ei dosraniadau awgrymedig yn rhoi ystyriaeth lawn i bob ffactor a all fod yn berthnasol o ran sicrhau y ceir cyflenwad digodol o agregau o ffynonellau wedi'u lleoli'n

¹²⁷ PCC Argraffiad 10 paragraffau 5.9.1 i 5.9.7

¹²⁸ PCC Argraffiad 10 paragraff 5.9.2

¹²⁹ Papur Cefndir Cynllunio Mwynau [SD41]

¹³⁰ Adran 3.15 Adroddiad Cwmpasu Gwaelodlin Arfarnu Cynaliadwyedd [SD10]

¹³¹ Adolygiad 1af o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol, 2014 [SD44]

briodol¹³². Serch hynny, mae PCC yn nodi y dylai cynnal banc tir deng mlynedd o leiaf ar gyfer craig wedi malu ar hyd oes y Cynllun sicrhau cyflenwad 'digonol' o fwynau y mae galw amdanynt¹³³. Yn 2017¹³⁴, mae'r banc tir dynodedig ar gyfer craig wedi malu yn y fwrdeistref sirol yn cynrychioli cyflenwad o dros 50 o flynyddoedd o gymharu â dosraniad y Datganiad Technegol Rhanbarthol. Mae'r gyfradd twf ar gyfer tai a ragwelir yn y Cynllun yn adlewyrchu tueddiadau hanesyddol hirdymor, ac nid oes llawer i ddangos y byddai cynlluniau neu brosiectau sy'n cael eu cynnig neu eu diogelu gan y Cynllun yn arwain at alw am agregau na ellid ei fodloni â'r cyflenwad is-ranbarthol dynodedig. Mae'r dystiolaeth, gan gynnwys y broses Arfarnu Cynaliadwyedd, wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i oblygiadau'r Cynllun ar gyfer y gadwyn gyflenwi mwynau yn hyn o bryd. O ganlyniad, rwyf o'r farn, yn gyson â pholisi cenedlaethol¹³⁵, nad oes angen i'r Cynllun ddyrannu unrhyw dir ar gyfer datblygu mwynau.

- 8.10. Serch hynny, bydd y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn cael ei adolygu cyn bo hir, ac felly gallai dosraniad y fwrdeistref sirol newid yn ystod cyfnod y Cynllun. Felly, mae'n briodol i'r Cynllun gynnwys cyfres o bolisiau ar gyfer asesu cynigion i echdynnu mwynau os cânt eu cyflwyno.
- 8.11. Nod polisi EcW10 'Darparu Mwynau'n Gynaliadwy' yw sicrhau y caiff banc tir deng mlynedd o leiaf o agregau wrth gefn a ganiateir gael ei gynnal yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'r polisi hefyd yn ceisio diogelu ffynonellau mwynau posibl rhag mathau eraill o ddatblygiad parhaol a fyddai naill ai'n eu diffwrthloni neu'n rhwystro echdynno. Fel y ceisir gan baragraff 5.14.9 PCC, llywiyd ardaloedd diogelu mwynau gan y Map Diogelu Agregau Cenedlaethol ar gyfer de-ddwyrain Cymru a'r Map Adnoddau Mwynau ar gyfer de-ddwyrain Cymru, ac maent wedi'u dynodi ar y Map Cynigion.
- 8.12. Mae polisi EcW11 'Datblygiad Mwynau', polisi EcW12 'Clustogfeydd Mwynau' a pholisi EcW13 'Diogelu Mwynau' yn pennu meini prawf ar gyfer asesu cynigion i echdynnu mwynau neu ddiogelu cyflenwad mwynau'r fwrdeistref sirol, gan gyfeirio at ardaloedd diogelu a chlustogfeydd sydd wedi'u dynodi ar y Map Cynigion. Cyhyd â'u bod yn ymwneud â mwynau nad ydynt yn gysylltiedig ag ynni, mae polisiau'r Cynllun yn darparu fframwaith priodol ar gyfer diogelu mwynau ac asesu ceisiadau ar gyfer eu hechdynnu, yn gyson â pholisi cenedlaethol¹³⁶.
- 8.13. Mae PCC Argraffiad 10 yn amlygu hierarchaeth ynni ar gyfer cynllunio, a dywed bod echdynnu mwynau at ddibenion cynhyrchu ynni yn annymunol gan mai dyma'r dull cynhyrchu sy'n cynhyrchu'r mwyaf o garbon¹³⁷.
- 8.14. Ynghyd ag adnoddau mwynau eraill, mae polisi EcW10 yn diogelu adnodd glo sylfaenol y fwrdeistref sirol drwy ddynodiad ar y Map Cynigion. Er nad yw hyn yn ofynnol gan bolisi cenedlaethol, dywed paragraff 5.10.17 PCC y gallai ACLlau fod eisïau diogelu'r adnodd glo sylfaenol, gan ddibynnu ar eu hamgylchiadau

¹³² Paragraff 5.20 Adolygiad 1af y Datganiad Technegol Rhanbarthol, 2014 [SD44]

¹³³ PCC Argraffiad 10, paragraff 5.14.15

¹³⁴ Adroddiad Blynnyddol SWRAWP 2017 [ED022]

¹³⁵ PCC Argraffiad 10 paragraff 5.14.15 a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 – Agregau paragraff 49, fel y'i diwygiwyd gan Lythyr Egluro CL-05-14

¹³⁶ PCC Argraffiad 10 paragraffau 5.14.43 i 5.14.46; Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 – Agregau

¹³⁷ PCC Argraffiad 10 paragraffau 5.7.14 a 5.10.1

unigol. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno papur¹³⁸ yn dangos bod gan y glo bitwmen a ganfuwyd yn y fwrdeistref sirol ddefnyddiau nad ydynt yn gysylltiedig ag ynni, gan gynnwys cynhyrchu dur, concrid, cemegau a phapur yn ddiwydiannol. Mae'n tynnu sylw at fuddsoddiadau yn 2015 yn Ffos-y-frân, sy'n dangos y galw am lo lleol i'w ddefnyddio yng ngwaith dur Tata ym Mhort Talbot. Mae'r Cyngor yn honni y byddai cael deunyddiau crai ar gyfer prosesau diwydiannol isranbarthol yn y modd hwn yn arwain at lai o allyriadau carbon na chludo glo o ymhellach i ffwrdd. Mae cryn sylwedd i'r ddadl hon.

- 8.15. Mae papur y Cyngor hefyd yn dadlau na ellir diystyru'n llwyr yr angen am lo ar gyfer sicrwydd ynni, gan dynnu sylw at ansicrwydd o ran cyflenwad nwy, ynni adnewyddadwy a phrosiectau niwclear. Nid wyf yn dadlau bod marchnadoedd ynni'n anodd eu rhagfynegi, ond nid yw hyn yn gorbwyso'r hierarchaeth ynni glir a bennir mewn polisi cenedlaethol. Dywed paragraff 5.10.13 PCC, wrth i Lywodraeth y DU geisio diddymu cynhyrchu ynni â glo erbyn 2025, mae'r galw parhaus am lo lleol yn ansicr. Er bod paragraff 5.10.14 yn caniatáu echdynnu glo i gynhyrchu ynni mewn amgylchiadau cwbl eithriadol, mae hynny ar wahân i'r sail resymegol ar gyfer diogelu'r adnodd glo sylfaenol mewn perthynas ag amgylchiadau unigol yr ardal.
- 8.16. Felly, nid oes unrhyw gyfiawnhad i ddiogelu'r adnodd glo sylfaenol ar gyfer defnyddiau yn gysylltiedig ag ynni. Serch hynny, mae'r dystiolaeth o'r angen am lo bitwmen ar gyfer cynhyrchu diwydiannol is-ranbarthol yn darparu rheswm cymhellol i ddiogelu'r adnodd yn yr achos hwn. Fodd bynnag, er mwyn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol, dylid diwygio paragraff 6.8.94 y Cynllun i fanylu ar amgylchiadau unigol yr ardal, sy'n cyfiawnhau'r dynodiad diogelu (**MAC45**).
- 8.17. Dywed paragraff 5.10.17 PCC lle mae ACLI yn dymuno diogelu'r adnodd glo sylfaenol, byddai angen iddo gynnwys polisiau priodol, gan gynnwys rhai yn ymwneud â'r cyfnod cyn echdynnu, yn eu cynlluniau datblygu. Nid yw polisi EcW11 nac EcW13 yn cynnwys meini prawf yn amlinellu'r amgylchiadau pan allai echdynnu neu gyn-echdynnu glo fod yn briodol. Felly, dylid ychwanegu maen prawf newydd at bolisi EcW11 i ddatgan y dylai cynigion ar gyfer echdynnu glo fod yn gwbl eithriadol a chael eu cyfiawnhau'n glir, ynghyd â thestun ategol yn egluro y dylai'r cyfiawnhad ar gyfer unrhyw echdynnu fod yn ymwneud ag anghenion nad ydynt yn gysylltiedig ag ynni, budd diogelwch cyhoeddus neu resymau o ddiogelwch gwladol, yn gyson â thystiolaeth leol a pholisi cenedlaethol (**MAC46** a **MAC47**). Trwy groesgyfeirio paragraffau perthnasol o PCC Argraffiad 10, byddai **MAC47** hefyd yn cael gwared ar unrhyw amwysedd ynghylch sut byddai polisiau mwynau'r Cynllun yn gweithredu ochr yn ochr â pholisi cenedlaethol mewn perthynas ag echdynnu glo.
- 8.18. Yn yr un modd, dylid diwygio polisi EcW13 i ddatgan y caiff cyn-echdynnu glo yn yr ardal a ddiogelir ei ganiatáu dim ond lle y dangoswyd yn gyntaf bod amgylchiadau cwbl eithriadol i gyfiawnhau hynny, wedi'i ategu gan esboniad clir o sut byddai'r polisi'n cael ei gymhwyso, gan gynnwys croesgyfeirio'n briodol at y profion a amlinellir ym mharagraff 5.14.32 PCC a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2 'Glo' (**MAC48** a **MAC49**). Dylid dileu cyfeiriad y Cynllun at ardaloedd lle y bydd echdynnu glo yn annerbyniol yn y dyfodol hefyd, gan nad yw'n gyson â pholisi cenedlaethol (**MAC44**).

¹³⁸ Ymateb Ysgrifenedig y Cyngor i Bwynt Gweithredu 8.1 [ED047]

- 8.19. Yn amodol ar y newidiadau uchod, rwy'n fodlon y byddai polisïau mwynau'r Cynllun yn cydymffurfio â pholisi cenedlaethol a'u bod wedi'u cyfiawnhau gan dystiolaeth gredadwy.

Gwastraff

- 8.20. Mae polisi EcW14 yn pennu meini prawf i asesu cynigion ar gyfer cyfleusterau trin gwastraff, ac mae'n amlygu'r ardaloedd dewisol ar gyfer y cyfleusterau hynny. Mae ardaloedd chwilio dynodedig yn ymwneud ag ardaloedd cyflogaeth penodol presennol neu a ddyrennir, ac maent wedi'u nodi a'u cyfiawnhau drwy broses asesu gadarn¹³⁹. Mae rhestr yr ardaloedd a nodwyd yn gyson â TAN 15 'Datblygu a Pherygl Llifogydd' ac nid yw'n cynnwys ardaloedd cyflogaeth lle ceir perygl o lifogydd.
- 8.21. Yn gyffredinol, mae darpariaethau polisi EcW14 yn cydsynio â TAN 21 'Gwastraff'. Fodd bynnag, byddai newidiadau a gyflwynir gan **MAC50** a **MAC51** yn egluro y dylid bodloni'r holl feini prawf, lle bo hynny'n briodol, a byddant yn esbonio'r cysylltiadau â PCC Argraffiad 10, gan sicrhau y caiff y polisi ei gymhwyso'n effeithiol.

Casgliad

- 8.22. Mae polisïau'r Cynllun ar gyfer ynni, mwynau a gwastraff, fel y'u diwygiwyd gan y newidiadau a argymhellir, wedi'u llywio gan dystiolaeth briodol a'u paratoi gan roi ystyriaeth briodol i bolisi ac arweiniad cenedlaethol perthnasol, ac maent yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer asesu cynigion perthnasol.

9 Polisïau amgylcheddol

Cadwraeth natur

- 9.1. Dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016¹⁴⁰, mae gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu gwydnwch ecosystemau wrth arfer eu pwerau. Mae polisi EnW1 'Gwydnwch Cadwraeth Natur ac Ecosystemau' yn darparu sail briodol i alluogi'r Cyngor i roi'r ddyletswydd statudol hon ar waith drwy'r broses Rheoli Datblygiad, ac yn unol â pholisi cenedlaethol¹⁴¹.
- 9.2. Bydd cymhwyso'r polisi hwn yn effeithiol ac yn gyson yn hanfodol o ran sicrhau deilliannau cadarnhaol yn ymwneud â bioamrywiaeth ac ecosystemau. I'r perwyl hwn, dylid diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol i fanylu ar nodweddion 'ecosystem gydnerth', gan gynnwys y potensial i rywogaethau neu gynefinoedd addasu i newidiadau mewn amodau. Dylai hefyd egluro sut y dylid defnyddio'r dull 'fesul cam' a amlinellir ym mharagraff 6.4.21 PCC yn lleol er mwyn sicrhau amcanion y ddyletswydd statudol, gan gynnwys yn ymwneud â defnyddio data ecolegol gwaelodlin ac Asesiadau Seilwaith Gwyrdd, ac o ran sut dylid asesu

¹³⁹ Papur Cefndir Cynllunio Gwastraff, Mehefin 2018 [SD42]

¹⁴⁰ Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, adran 6

¹⁴¹ PCC Argraffiad 10 paragraffau 6.4.5 i 6.4.9

cynigion a all arwain at effeithiol niweidiol i'r amgylchedd. Byddai **MAC25** a **MAC26** yn sicrhau'r newidiadau hyn, ac felly fe'u hargymhellir.

- 9.3. Mae dau Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) yn y fwrdeistref sirol. Byddai'r meini prawf a bennir ym mholisi EnW2 'Safleoedd a Rhywogaethau sy'n cael eu Gwarchod yn Genedlaethol' yn darparu lefel briodol o warchodaeth, yn unol â pharagraff 6.4.17 PCC.
- 9.4. Er nad oes unrhyw safleoedd eraill â dynodiad cenedlaethol neu ryngwladol ym Merthyr Tudful, byddai gan gynigion datblygu yn y fwrdeistref sirol y potensial i effeithio ar ddynodiadau cyfagos. Byddai **MAC27**¹⁴² yn diwygio polisi EnW2 i ymestyn dynodiadau rhyngwladol a mathau eraill o ddynodiad cenedlaethol ac yn addasu'r dull i fynd i'r afael â'r effeithiau ar rywogaethau a warchodir, yn gyson â pharagraffau 6.4.18 a 6.4.21 PCC. Er mwyn helpu i gymhwyso'r polisi'n gyson, dylid rhestru Ardaloedd Cadwraeth Arbennig cyfagos yn y cyfiawnhad rhesymegol hefyd, ynghyd â chrynodeb o ofynion polisi cenedlaethol a gwybodaeth yn ymwneud â'r Rheoliadau Cynefinoedd (**MAC28**).
- 9.5. Mae polisi cenedlaethol yn cydnabod cyfraniad hanfodol dynodiadau anstatudol o ran darparu rhwydwaith ecolegol ar gyfer bioamrywiaeth ac ecosystemau cydnerth, ac yn nodi y dylai'r cyfiawnhad ar gyfer y rhain gael ei gofnodi'n glir fel rhan o Asesiad Seilwaith Gwyrdd wrth lunio cynlluniau datblygu¹⁴³. Paratowyd y Cynllun cyn cyhoeddi PCC Argraffiad 10 ac nid yw'n cael ei gefnogi gan Asesiad Seilwaith Gwyrdd penodol. Serch hynny, mae amrywiol ddarnau o dystiolaeth, gyda'i gilydd, yn cyflawni rôl gyfwerth. Mae hyn yn cynnwys archwiliad 2012 o Safleoedd Daearegol o Bwys Rhanbarthol, Papur Cefndir ar Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SINC), arolygon o SINCaunigol, a'r Strategaeth Mannau Agored, sy'n mynd i'r afael â mannau gwyrdd naturiol a choridorau hamdden gwyrdd¹⁴⁴.
- 9.6. Mae'r dystiolaeth hon wedi llywio polisi EnW3 'Safleoedd Daearegol o Bwys Rhanbarthol, Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur a Chynefinoedd a Rhywogaethau â Blaenoriaeth'. Mae ffiniau'r ddau Safle Daearegol o Bwys Rhanbarthol yn y fwrdeistref sirol wedi'u nodi ar y Map Cynigion, yn gyson â'r dystiolaeth. Byddai amlygu nodweddion cymwys y safleoedd gwarchodedig hyn mewn atodiad i'r Cynllun yn sicrhau y caiff y polisi ei gymhwyso'n effeithiol (**MAC72**).
- 9.7. Mae ffiniau 64 Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur wedi'u dynodi ar y Map Cynigion. Penderfynwyd ar y rhain drwy adolygu'r 59 Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur sydd wedi'u cynnwys yn y CDLI presennol, ynghyd â phum safle ychwanegol a nodwyd yn dilyn arolygon ecolegol a gynhaliwyd yn 2007 a 2012.
- 9.8. Penderfyniad ar yr holl Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur gan ddefnyddio methodoleg is-ranbarthol¹⁴⁵ a buont yn destun ailarolwg a

¹⁴² Byddai MAC27 hefyd yn ailosod rhan o'r polisi a ddilewyd o fersiwn gyfunol y Cynllun ar gam yn ystod yr ymgynghoriad Newidiadau â Ffocws.

¹⁴³ PCC Argraffiad 10 paragraffau 6.4.20 i 6.4.12

¹⁴⁴ Dogfennau y cyfeirir atynt SD27, SD31, SD47, SD55, ED25 i ED29

¹⁴⁵ Meini Prawf ar gyfer dethol Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur yn ardal Canol y Cymoedd [ED024]

gwerthusiad. Er na ailarolygwyd bob rhan o bob safle, byddai'n afrealistig gwerthuso a dogfennu pob cynefin naturiol posibl yn y fwrdeistref sirol. Ar ben hynny, mae'r rhan fwyaf o'r Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur arfaethedig yn cynnwys 'cynefinoedd mosaig', y mae'r fethodoleg is-ranbarthol yn nodi y gallant gynnwys elfennau gwell neu ddiraddedig o ddiddordeb cadwraeth isel neu ddibwys¹⁴⁶. Nid oes llawer o dystiolaeth bod ardaloedd o ddiddordeb isel neu ddibwys yn ffurfio cyfran sylweddol o unrhyw un o'r safleoedd arfaethedig.

- 9.9. Mae ffiniau Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur 12 (Cwm Glo) a 36 (Gorllewin Rhyd-y-car) yn croestorri SoDdGA Cwm Glo a Glyndyrus. Nid oes unrhyw beth sy'n anghyson ynghylch hyn, yn yr hanfod, yn enwedig gan fod pob un ohonynt wedi'u dynodi am resymau tebyg. Fodd bynnag, mae'r arolygon a lywiodd ffiniau'r Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur a gynhwyswyd yn y CDLI presennol yn rhagddyddio'r dynodiad SoDdGA presennol o dair blynedd. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi addasu ffiniau Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur 12 a 36 i'w halinio â'r dynodiad SoDdGA a'r dyfyniad sy'n ei ategu¹⁴⁷. Er bod rhannau penodol o'r ddau Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur y tu allan i'r SoDdGA, mae arolygon a gynhaliwyd gan y Cyngor yn ystod yr ymchwiliad yn dangos bod lleiniau penodol o dir sydd wedi'u cynnwys yn y dynodiad arfaethedig yn parhau i fodloni'r meini prawf cymhwys¹⁴⁸. Yn ogystal â'r Papur Cefndir Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur, mae'r dystiolaeth bellach a gyflwynwyd yn ystod yr ymchwiliad¹⁴⁹ yn dangos bod gan y Cyngor ddealltwriaeth ddigon cyfredol a chynhwysfawr o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n bresennol ym mhob un o'r Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur presennol ac arfaethedig i gyfiawnhau eu dynodi yn y Cynllun.
- 9.10. Byddai'r meini prawf ym mholisi EnW3 yn rhoi diogelwch digonol i'r dynodiadau a'r buddiannau ecolegol hyn. Fodd bynnag, dylid diwygio maen prawf 2 i egluro y dylai asesiadau ganolbwyntio ar y nodweddion cadwraeth natur y mae angen eu gwarchod (**MAC29**), fel y ceisir gan baragraff 6.4.20 PCC. Am yr un rhesymau, dylid ychwanegu atodiad at y Cynllun yn amlygu'r nodweddion cymwys, priodweddau ac arwyddocâd pob safle, fel y nodwyd yn y dystiolaeth (**MAC72**), wedi'i groesgyfeirio o'r cyfiawnhad rhesymegol (**MAC29**). Byddai cynnwys gwybodaeth am ddyddiadau'r arolygon gwreiddiol a'r ailarolygon yn yr atodiad hwn yn cydymffurfio â'r arweiniad polisi a gynhwysir yn TAN 5 'Cynllunio a chadwraeth natur' i ddarparu cofnodion tryloyw a chyhoeddus o'r broses ddynodi¹⁵⁰.
- 9.11. Mae ffigur 11 yn PCC yn nodi Gwarchodfeydd Natur Lleol yn ddynodiad anstatudol y dylid rhoi lefel debyg o warchodaeth i Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur iddynt mewn cynlluniau datblygu. Gan fod y fwrdeistref sirol yn cynnwys Gwarchodfa Natur Leol ac y gellir dynodi mwy ohonynt yn y dyfodol, dylid diwygio polisi EnW3 i warchod Gwarchodfeydd Natur Lleol ynghyd â safleoedd dynodedig lleol eraill (**MAC29**). Byddai'r newid hwn hefyd yn sicrhau'r newidiadau angenrheidiol i'r cyfiawnhad rhesymegol i egluro rôl a

¹⁴⁶ Meini Prawf ar gyfer dethol Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur yn ardal Canol y Cymoedd [ED024], tudalen 47

¹⁴⁷ Dyfyniad SoDdGA ar gyfer Cwm Glo a Glyndyrus, 2008 [ED049]

¹⁴⁸ Ymateb y Cyngor i Bwynt Gweithredu 6.1 [ED047]

¹⁴⁹ *ibid.*

¹⁵⁰ Paragraff 5.5.2 TAN 5 'Cynllunio a chadwraeth natur'

diben Gwarchodfeydd Natur Lleol, a fyddai ynghyd â newid cysylltiedig i'r fframwaith monitro (**MAC57**) yn sicrhau y caiff y polisi diwygiedig ei gymhwyso'n effeithiol. Yn amodol ar y newidiadau hyn a'r rhai eraill a nodir uchod, rwy'n fodlon bod y gyfres o bolisiau yn y Cynllun yn darparu sail gadarn ar gyfer gwarchod yr amgylchedd naturiol.

Iechyd dynol ac iechyd yr amgylchedd

- 9.12. Mae polisi EnW4 'Diogelu'r Amgylchedd' yn ceisio sicrhau na fyddai datblygu'n cael effaith annerbyniol ar iechyd yr amgylchedd, pobl nac eiddo, er enghraifft mewn perthynas â llifogydd, llygredd aer neu sŵn, ymhlith pethau eraill.
- 9.13. Dywed PCC nad yw amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn lefelau 'diogel' o lygredd aer a'i fod yn ddymunol cadw lefelau llygredd mor isel ag sy'n bosibl¹⁵¹. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod rhaid i'r system gynllunio warchod amwynder ac nad yw'n dderbyniol dibynnu ar niwsans statudol dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 i wneud hynny¹⁵². Fel y'i cyflwynwyd, nid oedd polisi EnW4 yn ddigon cyson â'r nodau hynny. Yn unol â hynny, byddai **MAC30** yn diwygio'r polisi i geisio mesurau priodol i ostwng neu leihau'r effeithiau i'r lefel dderbyniol isaf bosibl i'w cynnwys mewn cynigion datblygu, gan roi esboniad yn y cyfiawnhad rhesymegol o sut byddai'r polisi'n cael ei gymhwyso'n ymarferol.
- 9.14. Mae'r fwrdeistref sirol yn gartref i un Ardal Rheoli Ansawdd Aer. Er bod polisi EnW4 yn cynnwys meini prawf effeithiol ar gyfer penderfynu ar geisiadau a all effeithio ar ansawdd aer neu gynyddu datguddiad yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer, nid yw'r cyfiawnhad rhesymegol yn ymhelaethu'n ddigonol ar sut byddai cynigion yn cael eu hasesu'n ymarferol. Byddai **MAC31** yn mynd i'r afael â'r diffyg hwn drwy roi mwy o fanylion am yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer, yr amgylchiadau pan allai fod angen Asesiad Ansawdd Aer i gyd-fynd â chais cynllunio, a sut y dylid dangos mesurau lliniaru. Er mwyn sicrhau y caiff y polisi ei roi ar waith yn effeithiol, dylid diwygio'r fframwaith monitro hefyd i gynnwys dangosyddion newydd yn ymwneud ag unrhyw estyniadau i'r Ardal Rheoli Ansawdd Aer ac olrhain lefelau nitrogen deuocsid mewn gorsafoedd monitro (**MAC55** a **MAC56**).
- 9.15. Mae rhan olaf polisi EnW4 yn ymwneud â'r amgylchedd dŵr. Yn hytrach nag ailadrodd polisi cenedlaethol ar y perygl o lifogydd, mae'r polisi'n croesgyfeirio'n briodol at ofynion TAN 15 'Datblygu a Pherygl Llifogydd', gan ddatgan yn ddiamwys na chaiff unrhyw ddatblygiad sy'n agored iawn i niwed ei ganiatáu o fewn parth llifogydd C2, fel y dangosir ar y Mapiau Cyngor Datblygu cysylltiedig. Er y gellir cyfiawnhau'r gofyniad i gynigion gynnwys mesurau i wella ansawdd dŵr lle mae cyfleoedd yn bodoli, byddai **MAC32** yn diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol i egluro yr eir i'r afael â gostyngiadau i lygredd gwasgaredig drwy systemau draenio cynaliadwy, fel arfer, ac felly o fewn cwrpas y drefn ganiatâd ar wahân ar gyfer systemau draenio cynaliadwy o bosibl. Byddai'r newid hwn yn sicrhau y byddai'r polisi'n cael ei roi ar waith yn briodol ac yn effeithiol.

Tirwedd

¹⁵¹ PCC Argraffiad 10 paragraff 6.7.2

¹⁵² PCC Argraffiad 10 paragraff 6.7.3

- 9.16. Mae polisi EnW5 yn diogelu tirweddau'r fwrdeistref sirol, gan roi ffocws penodol ar warchod nodweddion arbennig pum Ardal Tirwedd Arbennig. Mae sail gadarn i feini prawf y polisi hwn ac mae'n gyson â pholisi cenedlaethol¹⁵³.
- 9.17. Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi'u dynodi ar y Map Cynigion ac fe'u hamlygwyd drwy asesiad tirwedd¹⁵⁴. Mae methodoleg yr asesiad yn dilyn dull sy'n cael ei hyrwyddo gan CNC¹⁵⁵, gan droslunio pum haen LANDMAP i greu sgorau cronus ar gyfer gwahanol rannau o'r fwrdeistref sirol. Defnyddiwyd ardaloedd â sgôr gyfunol o 10 i amlygu ardaloedd eang y gellid eu dynodi'n Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Er nad oes sail resymegol derfynol ar gyfer hyn, rwyf o'r farn ei fod yn fan cychwyn priodol ar gyfer amlygu tirweddau y gellid eu hystyried yn 'arbennig' mewn termau lleol.
- 9.18. Yn bwysig, mireiniwyd y ffiniau ar gyfer y pum Ardal Tirwedd Arbennig ymgeisiol ar ôl ymweliadau â'r safleoedd. Mae'r matricesau gwerthuso'n dangos bod pob un o'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig hyn yn cynnwys ardaloedd agwedd LANDMAP a werthuswyd yn 'uchel' neu'n 'rhagorol', yn gyffredinol. Mae'r Cyngor yn honni gan yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn cyfateb yn dda i'r rhai a ddynodwyd yng nghynlluniau ACLlau cyfagos, ac nid oes gennyf unrhyw reswm i anghytuno â hynny.
- 9.19. Caiff ei gydnabod yn ddealliedig yn y Papur Cefndir ei fod yn anochel y bydd rhai rhannau o bob Ardal Tirwedd Arbennig yn llai sensitif i newid yn y dirwedd na rhannau eraill ohonynt. Mae polisi EnW5 yn cydnabod hyn drwy geisio sicrhau bod datblygu'n sensitif i nodweddion arbennig Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Mae'r Papur Cefndir ar Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi'i groesgyfeirio o'r cyfiawnhad rhesymegol ac mae'n cynnwys disgrifiad o gymeriad a chyfiawnhad ar gyfer ffiniau pob Ardal Tirwedd Arbennig. Mae hyn yn cydymffurfio â pharagraff 6.3.11 PCC, a byddai'n sicrhau y caiff ymgeiswyr a phenderfynwyr eu hysbysu'n briodol am nodweddion, priodweddau a rhinweddau'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig y mae'r polisi'n ceisio eu gwarchod.

Casgliad

- 9.20. Yn amodol ar y newidiadau a argymhellir, dof i'r casgliad bod polisïau amgylcheddol y Cynllun yn gadarn.

10 Polisïau Rheoli Datblygu eraill

- 10.1. Mae polisi SW10 'Mannau Agored a Gwarchodfeydd Natur Lleol' yn amlinellu meini prawf effeithiol a phriodol ar gyfer sicrhau bod cynigion datblygu'n sicrhau neu'n diogelu mathau penodol o fannau agored, yn gyson â'r safonau a nodir yn y Strategaeth Mannau Agored¹⁵⁶. Er y byddai'r polisi'n rhoi elfen o warchodaeth i bob man agored a all fod yn werthfawr o ran llesiant neu'r amgylchedd, byddai dynodi mannau agored allweddol ar y Map Cynigion yn sicrhau aliniad rhwng y Cynllun a'r Strategaeth Mannau Agored (**MAC15 a MapMAC9**). Byddai monitro colled neu ostyngiad mewn mannau agored, yn hytrach na'u potensial i gyflawni

¹⁵³ PCC Argraffiad 10 paragraff 6.3.11

¹⁵⁴ Papur Cefndir ar Ardaloedd Tirwedd Arbennig, Mehefin 2018

¹⁵⁵ Nodyn Canllaw 1 LANDMAP: LANDMAP ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig 2017

¹⁵⁶ Strategaeth Mannau Agored Merthyr Tudful, Mehefin 2016 [SD47]

statws y faner werdd, yn galluogi'r Cyngor i olrhain gweithrediad y polisi'n fanwl gywir (**MAC54**).

- 10.2. Mae ail ran polisi SW10 yn amlygu 11 o Warchodfeydd Natur Lleol arfaethedig ac un Warchodfa Natur Leol bresennol. Gan y daw statws Gwarchodfeydd Natur Lleol o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949¹⁵⁷ yn bennaf, yn hytrach na CDLLau, ni fyddai rhestru Gwarchodfeydd Natur Lleol arfaethedig ym mholisi SW10 yn cael llawer o effaith ynddo'i hun. Er bod y Cyngor yn honni y byddai'r safleoedd arfaethedig yn bodloni'r meini prawf cymhwyso ar gyfer eu dynodi, nid oes unrhyw un ohonynt wedi'i asesu a'i ddatgan yn ffurfiol. Felly, dylid dileu pob Gwarchodfa Natur Leol o'r polisi (**MAC14**) a gwneud newidiadau cyfatebol i'r cyfiawnhad rhesymegol (**MAC16**), y Map Cynigion (**MapMAC10**) a'r fframwaith monitro (**MAC54** a **MAC58**).
- 10.3. Gan fod y Gwarchodfeydd Natur Lleol arfaethedig yn fannau agored presennol, byddant yn cael elfen o warchodaeth dan bolisi SW10. Fodd bynnag, pe byddai unrhyw un ohonynt yn cael ei dynodi'n ffurfiol fel Gwarchodfa Natur Leol yn ystod cyfnod y Cynllun, byddai hyn yn arwydd eu bod o ddiddordeb gwyddonol naturiol lleol neu'n cynnwys nodweddion o ddiddordeb arbennig o ran bioamrywiaeth. Byddai newidiadau i bolisi EnW3 a gyflwynir drwy **MAC29** a **MAC57** yn sicrhau lefel briodol o warchodaeth i Warchodfeydd Natur Lleol yn y dyfodol, yn ogystal â'r Warchodfa Natur Leol bresennol yng Nghwm Taf Fechan.
- 10.4. Mae polisi SW11 'Cynllunio a Chreu Lleoedd Cynaliadwy' yn ceisio sicrhau cynigion o ansawdd uchel sydd wedi'u cynllunio mewn modd sensitif, a fyddai'n helpu wrth greu lleoedd. Mae'r polisi'n gynhwysfawr o angenrheidrwydd. Er bod y meini prawf asesu'n briodol, ni fydd pob un ohonynt yn berthnasol ar gyfer yr ystod eang o gynigion datblygu y mae'r ACLI yn debygol o'u derbyn yn ystod cyfnod y Cynllun. Felly, er mwyn rhoi lefel briodol o hyblygrwydd, dylai'r geiriad "lle bo hynny'n briodol" ddilyn pob un o'r meini prawf asesu (**MAC17**). Dylid diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol hefyd i egluro sut dylid sicrhau y darperir seilwaith gwyrdd yng nghyd-destun y drefn ganiatâd ar wahân ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (**MAC19** a **MAC20**).
- 10.5. Mae gweledigaeth y Cynllun yn ceisio sicrhau bod pobl ym Merthyr Tudful yn byw bywydau boddhaus. Byddai polisi SW13 'Diogelu a Gwellu Cyfleusterau Cymunedol Lleol' yn helpu i gyfrannu at hyn drwy gefnogi cyfleusterau cymunedol newydd neu well, a diogelu cyfleusterau presennol ledled y fwrdeistref sirol. Er bod y polisi ei hun yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer asesu cynigion datblygu, dylid diwygio'r cyfiawnhad rhesymegol i egluro'r ystod o gyfleusterau sy'n disgyn o fewn cwrmpas y polisi, fel swyddfeydd post, tafarndai a siopau lleol (**MAC22**), yn gyson â pholisi cenedlaethol¹⁵⁸.
- 10.6. Mae polisi CW1 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' yn diogelu asedau hanesyddol amrywiol y fwrdeistref sirol, sy'n cynnwys adeiladau, strwythurau, tirweddau, trefluniau ac olion archaeolegol, ymhlith pethau eraill. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys Ardaloedd â Chymeriad Trefol ac Ardaloedd Archaeolegol Sensitif a

¹⁵⁷ Nodyn Cyngor Technegol 5 'Cynllunio a Chadwraeth Natur', adran 5.5

¹⁵⁸ PCC paragraffau 4.4.1, 4.3.40 a 4.3.41

ddiffinnir yn lleol, sydd wedi'u cefnogi gan dystiolaeth¹⁵⁹ ac wedi'u dynodi ar y Map Cynigion.

- 10.7. Fel y'i cyflwynwyd, nid oedd polisi CW1 yn glir ynghylch lefel y warchodaeth a roddir i asedau hanesyddol â dynodiad cenedlaethol o gymharu â'r rhai sydd o bwysigrwydd arbennig lleol. Roedd y cyfiawnhad rhesymegol yn ddryslyd neu'n anghywir hefyd ynghylch statws mathau penodol o asedau hanesyddol. Er mwyn cydymffurfio â pholisi ac arweiniad cenedlaethol¹⁶⁰, dylid diwygio polisi CW1 i ddiogelu neu wella asedau hanesyddol dynodedig, gan sicrhau hefyd bod cynigion yn ystyried cymeriad arbennig a phwysigrwydd asedau hanesyddol nad ydynt wedi'u dynodi, gan gynnwys adeiladau neu strwythurau rhestredig lleol, Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, Ardaloedd â Chymeriad Trefol ac Ardaloedd Archaeolegol Sensitif (**MAC23.1**). Dylai'r cyfiawnhad rhesymegol nodi statws asedau penodol yn gywir hefyd, ac egluro pa bryd y dylai Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth ac asesiadau cymeriad gyd-fynd â cheisiadau (**MAC23.2**, **MAC23.3** and **MAC24**). Yn amodol ar y newidiadau hyn, rwy'n fodlon y byddai'r polisi a'r dangosyddion monitro cysylltiedig yn cefnogi'r gwaith o ddiogelu amgylchedd hanesyddol y fwrdeistref sirol yn briodol, fel y ceisir gan bolisi ac arweiniad cenedlaethol.

Casgliad

- 10.8. Dof i'r casgliad bod polisïau'r Cynllun yn darparu sail gynhwysfawr a chadarn ar gyfer rheoli datblygu yn y fwrdeistref sirol yn ystod cyfnod y Cynllun. Nid oes angen unrhyw bolisïau eraill i gyflawni amcanion y Cynllun na lliniaru'r effeithiau posibl a amlygwyd yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd neu'r Asesiad Priodol.

11 Monitro

- 11.1. Mae'r rhagymadrodd i'r fframwaith monitro'n esbonio'r fethodoleg monitro, sy'n categoreiddio difrifoldeb unrhyw ddargyfeirio oddi wrth dargedau a nodwyd ac yn nodi natur unrhyw gamau gofynnol, er enghraifft lle mae angen arweiniad ychwanegol neu lle mae angen adolygiad cyfannol o'r Cynllun.
- 11.2. Caiff newidiadau i'r fframwaith monitro eu hargymell yn yr adroddiad hwn er mwyn ymateb i faterion sydd wedi dod i'r amlwg yn ystod yr archwiliad. Mae'r fframwaith diwygiedig yn cynnwys targedau perthnasol a throthwyon ar gyfer dangosyddion craidd a lleol a fyddai'n cael eu defnyddio i fonitro polisïau penodol yn effeithiol. Mae'r dangosyddion yn ymwneud ag amcanion y Cynllun sydd, yn eu tro, yn alinio â'r Cynllun Llesiant Lleol. Er mwyn sicrhau y caiff y Cynllun ei weithredu'n effeithiol, rwyf hefyd yn argymhell cynnwys dangosydd lleol newydd i amcangyfrif nifer y swyddi ychwanegol y bydd cynigion datblygu yn eu creu, fel yr hyrwyddir yn y fersiwn ymgynghori ddrafft o Argraffiad 3 y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (**MAC60**).
- 11.3. Er bod y trothwyon ar gyfer rhai dangosyddion yn ymwneud ag amrediadau eang, mae hynny'n briodol o ystyried y nifer gymharol fach o geisiadau

¹⁵⁹ Merthyr Tudful – Deall Nodweddion Trefol, Cadw [SD39]; Archaeoleg ac Ardaloedd Archaeolegol Sensitif, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent [SD36]

¹⁶⁰ PCC paragraff 6.1.29; Nodyn Cyngor Technegol 24 – Yr Amgylchedd Hanesyddol; 'Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru' (Cadw, Mai 2017)

cynllunio y mae'r ACLI yn debygol o ymdrin â hwy, o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru. At ei gilydd, dof i'r casgliad bod y dangosyddion, y targedau a'r trothwyon sydd wedi'u cynnwys yn y fframwaith diwygiedig yn briodol, ac y byddant yn galluogi'r Cyngor i fonitro gweithrediad strategaeth y Cynllun, polisiau unigol a dyraniadau yn gywir, a gweithredu'n unol â hynny.

12 Casgliadau cyffredinol

- 12.1. Gyda'r newidiadau gorfodol a argymhellir yn yr adroddiad hwn ac sydd wedi'u hamlinellu yn yr Atodiad, dof i'r casgliad bod CDLI Newydd Merthyr Tudful 2016 – 2031 yn bodloni gofynion adran 64(5) Deddf 2004 ac yn bodloni profion cadernid Llywodraeth Cymru.

Paul Selby

Arolygydd